Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 30/2015

www.cymru.gov.uk

# Barn a Safbwyntiau'r Cyhoedd am Ymgysylltiad y Gymuned â Llywodraeth Leol yng Nghymru ADRODDIAD TERFYNOL

# Barn a Safbwyntiau'r Cyhoedd am Ymgysylltiad y Gymuned â Llywodraeth Leol yng Nghymru

**Suzanne Pritchard, Cyfarwyddwr**
**Laura Nesbitt, Gweithredwr Ymchwil**
**Strategic Marketing**

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Rhian Davies,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6791
E-bost: Rhian.Davies45@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 12 Mehefin 2015
ISBN 978-1-4734-4012-8
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys

_Toc421279198

1 Crynodeb ..... 3
2 Cyflwyniad ..... 11
3 Amcanion, Dull ac Adrodd ar yr Ymchwil ..... 13
4 Ymwybyddiaeth o ddiwygio Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru ..... 18
5 Lefel gyfredol ymgysylltu â Llywodraeth Leol ..... 22
6 Argraffiadau o ymgysylltu yn y presennol ac yn y dyfodol ..... 32
7 Mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu a chymryd rhan ..... 44
8 Cynghorwyr Lleol ..... 49
9 Casgliadau ..... 60

## Cynnwys: Siartiau

Siart 1: I ba raddau ydych yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol, sy'n cynnwys uno rhai o'r awdurdodau yng Nghymru o bosibl?....17

Siart 2: Ac a ydych yn ymwybodol o sut y gallai'r cynlluniau hyn effeithio ar eich ardal leol?....19

Siart 3: Pa rai o'r mathau dilynol o weithgareddau ymgynghori llywodraeth leol ydych wedi ymgysylltu â nhw?....20

Siart 4: A oes unrhyw reswm arbennig pam nad ydych wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau ymgynghori?....21

Siart 5: Gan feddwl am y ddwy flynedd diwethaf, sawl gwaith ydych wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau ymgynghori gyda'ch awdurdod lleol?....22

Siart 6: Pa rai o'r materion dilynol yr ymgynghorwyd â chi neu yr ymgysylltoch â nhw?....23

Siart 7: Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cael dweud eich dweud ynghylch gweithgarwch llywodraeth leol a sut mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg?....30

Siart 8: Pa mor fodlon ydych ar lefel y cyfle sydd gennych ar hyn o bryd i ddylanwadu ar weithgareddau llywodraeth leol?....31

Siart 9: Pa fath o gynnwys hoffech ei gael yn y dyfodol?....36

Siart 10: Faint o ddiddordeb fyddai gennych mewn ymgysylltu â'r math hwn o weithgarwch cymunedol yn eich ardal leol?....37

Siart 11: A wyddoch pwy yw eich cynghorydd lleol?....47

Siart 12: A ydych wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn y ddwy flynedd diwethaf?....48

Siart 13: Pa mor fodlon ydych ar y gwaith mae'ch cynghorwyr lleol yn ei wneud?....50

Siart 14: A ydych yn credu bod cynghorwyr llywodraeth leol yn cael eu talu neu heb gael eu talu am y gwaith maent yn ei wneud?....52

# 1 Crynodeb

## Cefndir y prosiect

1. Yn dilyn yr adroddiad diweddar ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Papur Gwyn dilynol ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflenwi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth am y rhaglen diwygio Llywodraeth Leol yn y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.
2. Er mwyn sicrhau bod polisi'n cael ei seilio ar dystiolaeth, comisiynwyd yr ymchwil hon i sicrhau y gwneir penderfyniadau cwbl wybodus.
3. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil sydd wedi'u seilio ar arolwg meintiol cynhwysfawr dros y ffôn a chyfweliadau manwl ansoddol dilynol gyda chyfran o'r cyhoedd er mwyn cael gwybodaeth i lenwi bylchau yn y dystiolaeth ar ymgysylltiad â llywodraeth leol ac ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned.
4. Gwnaethpwyd y gwaith maes yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2014 er mwyn casglu tystiolaeth gadarn i lywio Papur Gwyn Llywodraeth Cymru Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

## Ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ar gyfer diwygio

5. Mae dau bumed (40%) 'heb fod yn ymwybodol o gwbl' o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol. Mae chwech o bob deg o'r ymatebwyr (60%) yn ymwybodol i ryw raddau gan gynnwys 22% sy'n 'ymwybodol iawn'. Ymatebwyr dros 55 oed sydd â'r ymwybyddiaeth fwyaf (76%) yn ogystal â'r rheiny yng ngrŵp cymdeithasol AB (70%).
6. Mae'r rheiny sy'n ymwybodol o'r cynlluniau ar gyfer diwygio wedi cael gwybod yn bennaf trwy gyfryngau lleol, yn arbennig newyddion lleol ar y teledu a'r radio ac yn y wasg. Tynnodd ymchwil ddilynol sylw at yr angen i ddefnyddio ffyrdd gwahanol o gyfathrebu i gyrraedd gwahanol grwpiau o breswylwyr ac adlewyrchu'r dulliau cyfathrebu sydd orau ganddynt.

## Ymwneud â gweithgareddau ymgynghori

7. Ar sail rhestr â phromtiau o wahanol fathau o weithgaredd ymgynghori, dywedodd 86% o'r rhai a holwyd nad oeddent wedi cymryd rhan mewn

unrhyw fath o weithgareddau ymgynghori megis arolygon, digwyddiadau ymgynghori, cyfarfodydd cynghorau, grwpiau arbenigol neu gymorthfeydd cynghorwyr lleol. Yn yr achos hwn cymerir mai ystyr gweithgaredd ymgynghori yw gweithgaredd lle mae awdurdodau lleol yn ceisio barn y cyhoedd yn gyfan yn hytrach na dim ond y broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer cynigion penodol.

8. Mae 43% o'r rheiny nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori'n dweud mai diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gyfranogi yw'r prif reswm pam nad ydynt wedi cymryd rhan, er bod 33% yn dweud eu bod yn rhy brysur ac nid oes gan 26% ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y lle cyntaf. Mae ffactorau eraill yn cynnwys diffyg diddordeb yn y pwnc, amheuon a fydd y cyfraniadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth arwyddocaol i ganlyniad yr ymgynghoriad, ac anabledd, afiechyd neu oedran.
9. Y pynciau ymgynghori y sonnir amdanynt amlaf yw cynllunio (27%) ac ysgolion/addysg (27%) ac wedyn iechyd a gofal cymdeithasol (21%), sydd i gyd yn destun dyletswydd statudol i ymgynghori.
10. Mae'r materion y teimlai'r ymatebwyr y dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch yn amrywio, ond maent yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd ag ysgolion, addysg a dysgu, cyllidebau a gwario ac ymgynghori'n gyffredinol ar bob mater sy'n effeithio ar breswylwyr. Roedd chwarter heb unrhyw syniadau penodol ar y mater hwn.

**Ymwneud â gweithgareddau ymgynghori**

11. Y prif ffactorau ysgogol dros gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori yw lle mae effaith neu gysylltiad personol â'r pwnc – yn arbennig ymysg defnyddwyr gwasanaethau – ond hefyd lle mae ymatebwyr yn 'gymunedgar'. Mae sefydlu cysylltiad â'r pwnc yn beth pwysig i'w ystyried ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol.
12. Mae'r boddhad â gweithgareddau ymgynghori'n amrywio gan ddibynnu a yw'r rheiny sy'n cymryd rhan yn teimlo y clywyd eu lleisiau a bod yr ymgysylltu'n ystyrlon. Mewn rhai achosion, barnwyd mai 'mater o ffurf' yw ymgynghori yn hytrach nag ymgais gwirioneddol i ymgysylltu. Mae sicrhau y cynhelir y broses ymgynghori ar adeg pan mae opsiwn o hyd i ddylanwadu ar benderfyniadau'n bwysig iawn. Mae sicrhau y darperir digon o amser,

cyhoeddusrwydd a chyfle i ymgynghori'n effeithiol hefyd yn bwysig i'r cyhoedd.

13. Roedd y rheiny oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori wedi cael gwybod am y cyfle trwy gyfathrebu cyffredinol gan y cyngor (23%), ar lafar (17%), trwy gyswllt â gwasanaeth neu adran (12%), wrth iddynt hwythau fynd ati i wneud ymholiadau (12%), y wasg neu gyfryngau lleol (10%) neu drwy eu cynghorydd (9%).

**Diddordeb ac ymwneud â phenderfyniadau gan lywodraeth leol**

14. Mae gan 45% rywfaint o ddiddordeb mewn dweud eu dweud yng ngweithgarwch llywodraeth leol a'r ffordd mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg, o gymharu â 39% nad oes ganddynt lawer o ddiddordeb neu ddim o gwbl. Mae ychydig llai o ddiddordeb gan bobl o dan 35 oed (40%) a phobl yn y grwpiau cymdeithasol uchaf (AB) sydd â'r diddordeb mwyaf.
15. Mae 50% o'r ymatebwyr yn anfodlon â lefel y cyfle maent yn ei gael i ddylanwadu ar weithgareddau llywodraeth leol, yn arbennig ymysg pobl rhwng 35 a 54 oed (60%) ond llai ymysg pobl o dan 35 oed (40%).
16. Fel arfer mae ymatebwyr yn teimlo na roddir digon o wybodaeth iddynt am y ffordd mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg a beth mae'n ei wneud. Mae rhai'n cofio gwybodaeth a roddwyd trwy gylchlythyrau cynghorau ond mae eraill yn dweud bod yn rhaid iddynt fynd ati i chwilio am wybodaeth os ydynt ei heisiau, er enghraifft, trwy wefan awdurdod lleol. Weithiau mae gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad awdurdodau lleol a welir yn y wasg yn cael ei thrin yn ofalus rhag ofn 'sbin' gan y wasg a byddid yn ffafrio gwybodaeth a geir gan lywodraeth leol yn uniongyrchol.
17. Mae sylwadau gan ymatebwyr yn awgrymu y gall diffyg gwybodaeth am berfformiad arwain at ganfyddiad nad yw llywodraeth leol yn dryloyw, yn arbennig pan fo cyfarfodydd 'caeedig' neu pan fo gwybodaeth yn anodd cael hyd iddi ar wefannau.

**Cyrraedd ac ymgysylltu â'r gymuned**

18. Mae ymatebwyr yn pwysleisio y dylai gwybodaeth a chyfathrebu yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyfathrebu uniongyrchol gan lywodraeth leol, yn arbennig trwy gylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol yn ogystal â hysbysebion yn y wasg leol i godi ymwybyddiaeth o ymgynghoriadau a chyfarfodydd cyngor.

At hynny, mae cysylltu'n well ag aelodau o'r gymuned y mae cynigion yn effeithio arnynt yn bwysig, yn arbennig ar adeg gynnar yn y broses benderfynu. Mae cyfathrebu amserol ymhell cyn cyfarfodydd hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig.

19. Dylid mynd ati fwy i hybu ymgysylltu yn gyffredinol yn y gymuned, yn arbennig ymysg pobl ifanc neu grwpiau agored i niwed sy'n llai tebygol o gymryd rhan. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylid ystyried sianelau priodol i gyrraedd gwahanol rannau o'r gymuned lle maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus ac yn fwyaf galluog i ymateb.

20. Mae'r mathau o weithgareddau ymgynghori y sonnir amdanynt amlaf yr hoffai'r cyhoedd eu gweld yn cynnwys mwy o gyswllt â chynghorwyr (29%), gweithgareddau ymgynghori/arolygon (29%), digwyddiadau ymgynghori (25%), cyfarfodydd cyngor/craffu (19%). Roedd digwyddiadau cydystyried (16%), grwpiau ffocws a gweithdai (16%) a fforymau neu grwpiau arbenigol (15%) hefyd o ddiddordeb.

**Diddordeb ac ymwneud â gweithgarwch dan arweiniad y gymuned**

21. Mae gan draean o'r ymatebwyr (33%) ddiddordeb i ryw raddau mewn cymryd rhan mewn gweithgarwch dan arweiniad y gymuned. Nid oes gan 53% ddiddordeb mewn cymryd rhan. Dywedodd un o bob pump o'r bobl a holwyd yn y cam ansoddol eu bod eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

22. Mae'r ffactorau ysgogol sy'n annog ymatebwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cynnwys faint o gysylltiad sydd gan ymatebwyr â'r math o weithgaredd, yn arbennig pan mae ganddynt brofiad personol fel defnyddiwr. Fel arfer mae gan y bobl sydd â'r math hwn o gysylltiad hefyd agwedd fwy rhagweithiol at gymryd rhan. Mae gan rai ddiddordeb mewn gweithgareddau oherwydd bod ganddynt brofiad personol o'r maes gwaith a'u bod yn ymwneud ag ef, a'u bod eisiau gwneud cyfraniad eu hunain. Mae eraill eisiau 'rhoi'n ôl' i'r gymuned ond hefyd yn cael boddhad personol o'u hymwneud pan welant ganlyniadau eu hymwneud.

23. Mae clywed ar lafar yn un o'r ffyrdd allweddol o gael gwybod am weithgarwch dan arweiniad y gymuned, yn ôl ymatebwyr.

**Cyfrifoldebau dinesig**

24. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai pobl a chymunedau gydweithio i ddarparu gwasanaethau cymunedol, mae yna bryderon y dylid gwneud hyn mewn partneriaeth. Pan mae'n mynd yn anodd cynnal gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol ar hyn o bryd, mae rhai ymatebwyr yn credu y dylid trosglwyddo cyfrifoldebau i gymunedau sy'n deall anghenion lleol yn hytrach na cholli'r gwasanaeth.
25. Fodd bynnag, mae cafeatau pendant gan lawer o ymatebwyr sy'n dadlau y dylai'r sector cyhoeddus ddal i ymwneud i raddau mwy neu lai â darparu'r gwasanaeth, ac na ddylid defnyddio gweithgarwch dan arweiniad y gymuned fel ffordd o dorri costau neu i lywodraeth leol gael ei rhyddhau o bob cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau.

**Ffactorau sy'n ysgogi peidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch dan arweiniad y gymuned**

26. Mae'r rhesymau pam nad yw'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad y gymuned yn cynnwys yr ymrwymiadau amser sy'n deillio o gyfrifoldebau gwaith a theuluol a chyfrifoldebau eraill. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal leol hefyd yn rhwystr ac yn faes lle gellir gweithredu. Mae rhoi gwybod i bobl sut y gallant gymryd rhan yn bwysig wrth annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol. Mae difaterwch cyffredinol yn y gymuned hefyd yn amlwg, yn arbennig pan nad yw'r ymatebydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth neu nad yw'r gwasanaeth yn effeithio arno. Os nad oes effaith arnynt, maent yn llai tebygol o gymryd rhan.
27. Mae'r rheiny sy'n hen, yn sâl neu'n anabl hefyd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol, naill ai oherwydd eu bod yn teimlo mai cyfraniad cyfyngedig y gallant ei wneud neu oherwydd eu bod eisoes wedi 'gwneud eu rhan' dros y gymuned.

**Hybu ymgysylltu ac ymwneud**

28. Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod helpu preswylwyr i ymgysylltu rhywfaint â'r pwnc neu'r math o weithgaredd yn debygol o fod yn bwysig wrth annog pobl i ymwneud â gweithgareddau ymgynghori neu dan arweiniad y

gymuned. Byddai hyn yn creu cysylltiad a rhywfaint o ddiddordeb a allai annog pobl i gymryd rhan.

29. Mae cyfleu a rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd i gymryd rhan hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol. Mae'n bwysig rhoi gwybod i bobl pa fath o weithgareddau y gallant gymryd rhan ynddynt a pha effaith y gallent ei chael.
30. Bydd sicrhau y gall pob rhan o'r gymuned gymryd rhan yn golygu ystyried y dulliau a sianelau cyfathrebu mwyaf priodol a bydd y rhain yn amrywio i wahanol rannau o'r gymuned. Nid yw un dull yn addas i bawb, a bydd pob dull yn golygu cyfathrebu mewn 'arddull' gwahanol ac ar gyflymder gwahanol.
31. Dylid hefyd ystyried amseriad cyfathrebu. Mae ymatebwyr yn nodi y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn rhy agos at ddigwyddiad neu ddyddiad cau yn golygu na all pobl ddod o hyd i'r amser i gymryd rhan.
32. Mae'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil hon yn dweud y byddai addysgu plant yn ifanc trwy raglenni dinasyddiaeth neu gyfrifoldeb dinesig yn yr ysgol neu'r tu allan iddi hefyd yn ddefnyddiol yn y tymor hirach. Gallai hyn hybu dealltwriaeth well o'r ffordd y mae llywodraeth leol a gwasanaethau'n cael eu rhedeg a thynnu sylw at bwysigrwydd perchnogaeth a chyfrifoldeb dinesig.

**Cynghorwyr lleol**

33. Mae 51% o'r ymatebwyr yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol ac o'r grŵp hwn mae 48% wedi bod mewn cysylltiad gydag ef yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae rhai'n cofio cysylltiad uniongyrchol yn arbennig os oes problem wedi bod ganddynt a'u bod wedi cysylltu â'u cynghorydd yn bersonol, dros y ffôn neu drwy e-bost ynghylch llythyr oedd yn effeithio arnynt. Mae eraill yn cofio gweld eu cynghorydd mewn cyfarfodydd cyngor neu gymunedol.
34. Ychydig o ymatebwyr sy'n gwybod llawer am rôl a chyfrifoldebau eu cynghorydd yn fanwl ond mae'r rhan fwyaf yn gwybod ei fod yn cynrychioli eu ward a rhywfaint am y cylch gwaith bras. Os oes cysylltiad uniongyrchol wedi bod, mae rhai ymatebwyr yn fwy gwybodus am rôl a chyfrifoldebau eu cynghorydd.
35. Er gwaethaf lefel gymharol isel yr ymwybyddiaeth o bwy yw eu cynghorydd, rhoddodd 31% sgôr gadarnhaol o ran boddhad â'u cynghorydd, sy'n codi i 55% ymysg y rheiny sydd wedi bod mewn cysylltiad gydag ef. Mae lefel yr

ymwybyddiaeth o gynghorwyr lleol yn cael effaith ar y sgorau boddhad a roddir gan ymatebwyr – rhoddodd 44% o'r bobl sy'n gwybod pwy yw eu cynghorydd sgorau boddhad uwch o gymharu â dim ond 17% o'r bobl nad ydynt yn gwybod. Rhoddodd 23% sgôr boddhad is ond nid oedd gan 29% farn gref y naill ffordd na'r llall.

36. Cyfyngedig yw'r farn wybodus ar berfformiad cynghorwyr ymysg yr ymatebwyr i'r ymchwil ansoddol gan mai ychydig yn gymharol sy'n gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau i ddechrau. Os ydynt yn gallu cynnig sylwadau, cymysg yw'r farn am ba mor dda mae cynghorwyr yn perfformio. Fel arfer mae'r bobl sydd wedi cael profiad cadarnhaol o'u cynghorydd yn barnu ei fod yn ymgysylltu â'r gymuned, yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn sefyll dros bethau sy'n bwysig i'r ward. Mewn cyferbyniad, mae'r bobl sydd wedi cael profiad negyddol â'u cynghorydd lleol yn barnu mai ychydig o ymwneud â'r gymuned a gweithredu ar faterion cymunedol sydd.

**Ymwybyddiaeth o dâl ac oriau gwaith cynghorwyr a barn amdanynt**

37. Mae 73% o'r ymatebwyr yn credu bod cynghorwyr lleol yn cael eu talu am y gwaith maent yn ei wneud. Yn y cyfweliadau ansoddol, roedd llawer yn meddwl y byddai cyflog cynghorydd rhwng £10,000 a £14,000 gyda threuliau'n ychwanegol, er bod eraill yn disgwyl cyflogau uwch a bod rhai'n cydnabod bod y tâl yn dibynnu ar rôl y cynghorydd, er enghraifft, hyd at £30,000 i aelod o gabinet a £120,000 neu fwy i Brif Weithredwr.
38. Mae'r bobl sy'n meddwl nad yw cynghorwyr yn cael eu talu, neu sy'n ansicr a ydynt yn cael eu talu, yn meddwl eu bod yn cael eu digolledu am fynd i gyfarfodydd gyda lefel uwch o dreuliau a lwfansau.
39. Mae'r graddau y mae cyflogau'n rhesymol yn dibynnu ar lefel y cyflog mae ymatebwyr yn credu y caiff ei dalu, pa mor weithgar yw eu cynghorydd yn eu barn hwy, a'r graddau mae'n cynrychioli ei gymuned. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai tâl fod yn gysylltiedig â lefel yr 'ymdrech' mae cynghorwyr yn ei wneud i wasanaethu eu cymuned.
40. Mae tri o bob pump o'r ymatebwyr yn yr ymchwil ansoddol yn meddwl bod cynghorwyr yn gweithio rhan amser ac mae bron un o bob pump yn meddwl eu bod yn gweithio amser llawn. Mae'r gweddill yn ansicr neu'n awgrymu bod hyn yn dibynnu ar eu rôl.

**Diddordeb mewn bod yn gynghorydd**

41. Ymchwiliwyd i hyn yng nghyfnod ansoddol y prosiect. Ni fyddai tri o bob pump (32) yn ystyried bod yn gynghorydd a'r prif resymau yw cyfyngiadau amser ac ymrwymiadau eraill, oedran (rhy hen neu ddim digon o brofiad o fywyd), a diffyg diddordeb neu hyder i ysgwyddo agweddau 'gwleidyddol' y rôl. Dywedodd y rhai a fynegodd ddiddordeb y byddai rolau rhan amser o fwy o ddiddordeb; yn arbennig os oeddent ar gyfnod mewn bywyd pan fyddai hyn yn fwy dichonadwy e.e. ar ôl i'r plant dyfu i fyny neu ar ôl ymddeol.
42. Er bod rhai ymatebwyr yn credu bod profiad o fywyd yn bwysig mewn rôl o'r fath, hoffai eraill weld 'gwaed newydd' oddi wrth bobl iau.
43. Mae llawer o gyfranogwyr wedi'u dadrithio ag agweddau gwleidyddol rôl cynghorydd, yn arbennig os nad oes ganddynt unrhyw dueddiad gwleidyddol, hyd yn oed pan mae agweddau'r rôl o ran 'ymwneud â'r gymuned' yn ddeniadol. Gall yr agwedd wleidyddol a'r angen i gael eu hethol fod yn annymunol i rai.
44. Mae ymatebwyr yn dweud y dylai demograffeg cynghorwyr adlewyrchu proffil y gymuned leol, naill ai yn nhermau eu cefndir eu hunain neu fel arall, ar yr amod bod ganddynt wreiddiau yn y gymuned a'u bod yn deall anghenion y ward gallent fod yn gynrychiolwyr da.

# 2 Cyflwyniad

2.1 Rhoddir manylion y cyd-destun ymchwil a pholisi isod ynghyd â gwybodaeth am y bylchau yn y dystiolaeth a sut y bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio.

**Y cyd-destun ymchwil a pholisi**

2.2 Adroddodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Comisiwn") ar y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu llywodraethu a'u darparu, a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Un argymhelliad allweddol oedd lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol (ALlau) o 22 i 10-12, gan greu potensial am fwy o effeithlonrwydd a defnydd gwell o adnoddau. Tynnodd yr adroddiad sylw at faterion eraill hefyd gan gynnwys yr angen am:

- fwy o ymgysylltu rhwng ALlau a chymunedau i gynllunio'r ffordd y darperir gwasanaethau
- mwy o graffu i alluogi ALlau i wneud penderfyniadau anodd e.e. pennu blaenoriaethau cyllidebau

2.3 Mae'r Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflenwi yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n credu y gellid sicrhau diwygiadau. Mae'n cyfeirio at yr angen am 'berthynas newydd' rhwng cymunedau ac ALlau er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu a chymryd rhan.

2.4 Mae tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru'n dangos diffyg ansawdd canfyddedig mewn gwasanaethau ALlau a chyfathrebu aneffeithiol ar berfformiad. Mae yna awydd am i'r cyhoedd gymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau'n lleol ond hefyd lefel isel ganfyddedig o 'bŵer i ddylanwadu' ar benderfyniadau (mae 24% yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol). Credir bod nodweddion ymatebwyr (e.e. oedran, lefel addysg) yn hytrach na lleoliad daearyddol yn dylanwadu ar yr amrywiad yn y boddhad ag ALlau.

2.5 Mae cwmpas ac effeithiolrwydd presennol gweithgareddau ymgysylltu'n amrywio'n enfawr rhwng ALlau, yn rhannol oherwydd yr amrywiad mewn maint, adnoddau mewnol, gwasanaethau a ddarperir a phroffil y boblogaeth.

2.6 Mae i hyn oblygiadau i'r ffordd mae llywodraeth leol yn ymgysylltu â chymunedau yn y dyfodol.

**Adeiladu'r sail dystiolaeth**

2.7 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y ffordd orau ymlaen ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol ledled Cymru.

2.8 Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau polisi, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r ymchwil hon i gasglu barn y cyhoedd ar ymgysylltu â llywodraeth leol yng Nghymru ac ymwneud â gweithgareddau cymunedol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall mwy am amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â'r materion hyn gan gynnwys y lefel a'r math o ymgysylltu cymunedol a geir ar hyn o bryd a'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

2.9 Mae'r ymchwil gyfredol ar farn y cyhoedd am ymgysylltu â llywodraeth leol ac ymwneud cymunedol yn gyfyngedig gan fwyaf i'r wybodaeth a ddarperir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae bwlch yn y dystiolaeth am farn y cyhoedd am:

- maint a math yr ymgysylltu â llywodraeth leol
- canfyddiadau ynghylch pa ymgysylltu sy'n briodol neu'n amhriodol
- disgwyliadau ac effeithiolrwydd ymgysylltu â llywodraeth leol a'r dylanwad y dylai'r cyhoedd ei gael ar y ffordd y darperir gwasanaethau
- barn am gyfrifoldeb dinesig a 'chyd-gynhyrchu'
- dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol a sut y ceir gwybodaeth

2.10 Mae'r ymchwil hon yn darparu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau polisi a fydd yn cael effaith ar ddiwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru.

2.11 Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, i adolygu'r camau nesaf yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod yn iawn beth yw barn y cyhoedd fel y bydd penderfyniadau ar y mater hollbwysig hwn yn cael eu seilio'n llwyr ar dystiolaeth.

## 3 Amcanion, Dull ac Adrodd ar yr Ymchwil

3.1 Nodir yma nod cyffredinol ac amcanion y prosiect, gwybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r dull o adrodd.

### Nod ac Amcanion

3.2 Nod cyffredinol yr ymchwil hon yw darparu dealltwriaeth well o farn y cyhoedd am ymgysylltu â llywodraeth leol a nodi'r ffactorau ysgogi a'r rhwystrau allweddol.

3.3 Rhoddir nodau ac amcanion penodol cytunedig y prosiect isod:

*Nod 1:* *Meithrin dealltwriaeth, o bersbectif y cyhoedd, o ymgysylltu mewn llywodraeth leol yng Nghymru.*

*Nod 2:* *Ymchwilio i'r hyn mae'r cyhoedd ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan lywodraeth leol, yn nhermau ymgysylltu a dylanwad.*

*Nod 3:* *Deall lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiwygio llywodraeth leol.*

*Nod 4:* *Meithrin dealltwriaeth o farn y cyhoedd am sefydliadau democrataidd ac aelodau etholedig.*

### Methodoleg

3.4 Gwnaethpwyd y gwaith ymchwil mewn dau gam. Y rhan gyntaf oedd prosiect ymchwil feintiol oedd yn cynnwys 1000 o arolygon ffôn gydag aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru. Dewiswyd y dull hwn oherwydd ei fod yn cynnig y gallu i wneud nifer sylweddol o arolygon mewn cyfnod cymharol fyr ac o fewn cyllideb gyfyngedig.

3.5 Mae'r ymchwil yn rhoi 'ciplun' o'r ffordd mae'r cyhoedd yn gweld ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori a darparu cymunedol a beth yw'r materion o bwys ynghylch ymgysylltu. Nid yw'r sampl yn ddigon cadarn i ganiatáu iddi fod yn astudiaeth gwbl gynrychioladol. Nid oes modd i'r data gael eu dadansoddi'n ddibynadwy fesul newidynnau megis ardal awdurdod lleol, er enghraifft, ond maent yn ddigon trylwyr i ganiatáu eu dadansoddi fesul 'math' o leoliad h.y. gwledig neu drefol, a fesul ffactorau demograffig eraill megis oedran a grŵp cymdeithasol.

3.6 Y cyfwng hyder i'r arolwg meintiol yw +/-3.1 sy'n golygu os rhoddir ymateb o 50% ar gyfer unrhyw ateb penodol, byddai'r gwir werth rhwng +/-46.9% a 53.1%.

3.7 Er mwyn cael gwybodaeth fanylach am rai o'r materion o bwys ynghylch diwygio llywodraeth leol, cynhaliwyd ail gam o ymchwil ansoddol. Rhoddodd hyn gyfle i wirio canlyniadau'r arolwg o Gam 1, egluro rhai o'r pwyntiau a godwyd a rhoi dealltwriaeth well o'r materion y soniwyd amdanynt eisoes.

3.8 Yn ystod yr ail gam hwn, cynhaliwyd hanner cant o drafodaethau manwl gydag ymatebwyr oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau dros y ffôn yn y cam cyntaf. Cysylltwyd eto â detholiad o'r bobl oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn cyfweliad manwl dilynol. Gan ddilyn arweiniad pwnc cytunedig, ymchwiliasom ymhellach i farn y cyhoedd am lywodraeth leol ac ymgysylltu cymunedol.

**Rhan 1 – Dull yr Ymchwil Meintiol**

3.9 Gwnaethpwyd 1000 o arolygon dros y ffôn gydag aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru. Gosodwyd cwotâu yn ôl lleoliad daearyddol a grwpiau oedran i sicrhau dosbarthiad da o gyfweliadau ledled Cymru ac i adlewyrchu'r ffaith bod ymgysylltu gwleidyddol yn amrywio'n sylweddol gydag oedran.

3.10 Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng diwedd mis Tachwedd a dechrau mis Rhagfyr 2014 yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dewis iaith yr ymatebydd.

*Holiadur*

3.11 Cafodd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn Rhan 1 o'r ymchwil ei ddatblygu gan ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar sail y dystiolaeth yr oedd ei hangen i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Papur Gwyn. Roedd y pynciau yr ymdriniai'r holiadur â hwy'n cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o ddiwygio Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru
- Lefel ymgysylltu bresennol
- Ymwneud â gweithgareddau ymgynghori a sut y clywsant am hyn
- Argraffiadau o ymgysylltu yn y presennol ac yn y dyfodol gan gynnwys lefelau diddordeb mewn darparu cymunedol
- Ymwybyddiaeth o gynghorwyr, lefel cysylltiad a boddhad

*Samplu*

3.12 Dangosir y sampl a holwyd yn y tabl isod:

**Tabl 1: Sampl a holwyd yn Rhan 1**

| Lleoliad | Oedran | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | O dan 35 | 35 - 54 | Dros 55 | |
| **Trefol** | 169 | 231 | 255 | 655 |
| **Gwledig** | 77 | 118 | 150 | 345 |
| **Cyfanswm** | 246 | 349 | 405 | 1,000 |

3.13 Gan ddefnyddio'r wybodaeth am alwedigaethau a roddwyd gan yr ymatebwyr yn ystod y cyfweliadau dros y ffôn, nodwyd awgrym o'r radd gymdeithasol gan ddefnyddio Grwpiau Galwedigaethol y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad[1]. Rhoddir y sampl a holwyd fesul gradd gymdeithasol yn y tabl isod:

**Tabl 2: Rhan 1 Sampl meintiol fesul Gradd Gymdeithasol**

| Lleoliad | Cyfweliadau | % Sampl |
|---|---|---|
| **AB** | 249 | 25% |
| **C1** | 246 | 25% |
| **C2** | 292 | 29% |
| **DE** | 160 | 16% |
| **Gwrthododd** | 53 | 5% |
| **Cyfanswm** | 1000 | 100% |

## Rhan 2 – Dull Cyfweliadau Manwl Ansoddol

3.14 Roedd ail ran y prosiect yn cynnwys trafodaethau manwl dros y ffôn gyda 50 o'r bobl a holwyd yn Rhan 1 er mwyn ymchwilio i rai o'r materion yn fanylach gan ddilyn arweiniad cytunedig i'r drafodaeth. Parodd y cyfweliadau rhwng 20 a 40 munud ar gyfartaledd.

*Pynciau trafod*

3.15 Cafodd yr arweiniad i'r drafodaeth ei ddatblygu gan ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac ymchwiliwyd yn fanylach i rai o'r materion a nodwyd yn Rhan 1, a hefyd ymdriniwyd â materion eraill am y tro cyntaf. Roedd y pynciau oedd wedi'u cynnwys yn yr arweiniad i'r drafodaeth yn cynnwys:

---

[1] Wedi'u seilio ar *"Occupation Groupings: A Job Dictionary"*, Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, 2010. Gellir gweld mwy o fanylion am Ddosbarthiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ar https://www.mrs.org.uk/pdf/occgroups6.pdf

- Diwygio llywodraeth leol – trafodaeth fanylach ar ymwybyddiaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru a sut mae'r cyhoedd wedi clywed am y cynlluniau
- Dealltwriaeth o Awdurdodau Lleol a boddhad â hwy – a roddir digon o wybodaeth i'r cyhoedd am y ffordd mae'r awdurdod lleol yn cael ei redeg a beth mae'n ei wneud? A ydynt yn teimlo bod yr awdurdod lleol yn gweithredu mewn ffordd agored ac onest? A ydynt yn hyderus ei fod yn gweithredu er budd ei etholwyr? Beth ellid ei newid am y ffordd mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg? Beth ddylid ei wneud yn wahanol? Pa newidiadau mae eu hangen yn y ffordd mae'n cyfathrebu â'r cyhoedd?
- Cynghorwyr lleol – ymwybyddiaeth o bwy yw cynghorwyr lleol, faint o gyswllt maent wedi'i gael, canfyddiadau ynghylch tâl cynghorwyr, yr oriau maent yn gweithio a'u cyfrifoldebau a pha mor dda maent yn cyflawni eu rôl, meddyliau am beth ddylai cynghorwyr ei wneud a sut maent yn cyfathrebu â'r cyhoedd.
- Diddordeb mewn bod yn gynghorydd a'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwneud hynny a'r rhesymau pam nad yw pobl yn gwneud, sut i annog amrywiaeth fwy o breswylwyr i fod yn gynghorwyr, canfyddiadau ynghylch a ddylai cynghorwyr adlewyrchu proffil y gymuned leol.
- Cyfrifoldebau dinesig – ymwneud â gweithgareddau ymgynghori (y tu hwnt i ymgynghoriadau ffurfiol) neu weithgareddau dan arweiniad y gymuned, y cymhelliannau a'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, ffactorau sy'n symbylu ymgysylltu neu beidio ag ymgysylltu.
- Annog pobl i ymwneud mwy â gweithgarwch ymgynghori neu weithgarwch dan arweiniad y gymuned a'r mathau o ymwneud y dylid eu hystyried.

*Samplu*

3.16 Cynhaliwyd y 50 o gyfweliadau manwl dros y ffôn gydag ymatebwyr oedd wedi cytuno i ymchwil ddilynol yn Rhan 1. Roedd y samplu'n adlewyrchu poblogaeth Cymru fesul math o leoliad ac oedran, a gwnaed ymdrech i sicrhau y cynhaliwyd cyfweliadau gydag aelodau o'r cyhoedd o amrywiaeth fawr o gefndiroedd.

**Tabl 2: Sampl a holwyd yn Rhan 2**

| Lleoliad | Oedran | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | O dan 35 | 35 - 54 | Dros 55 | |
| **Trefol** | 11 | 10 | 12 | 33 |
| **Gwledig** | 2 | 6 | 9 | 17 |
| **Cyfanswm** | 13 | 16 | 21 | 50 |

## Strwythur yr adroddiad a chyflwyno'r data

3.17 Yn fras mae'r adroddiad yn dilyn y themâu a drafodwyd yn yr holiadur a'r arweiniad i'r drafodaeth a ddefnyddiwyd yn y gwaith maes. Oherwydd y gorgyffwrdd rhwng dau gam y gwaith, mae ymatebion o'r ymchwil ansoddol a wnaed yn Rhan 2 wedi cael eu cynnwys gyda'r canlyniadau o Ran 1 lle maent yn berthnasol ac yn arbennig lle maent yn ymhelaethu ar y pwyntiau a godwyd yng ngham cyntaf y gwaith. Mae'r sylwadau'n nodi a gasglwyd y wybodaeth o'r cam ymchwil ansoddol neu feintiol.

3.18 Lle bo'n berthnasol, mae sylwebaeth a siartiau'n dangos dadansoddiadau o'r canlyniadau meintiol fesul gradd gymdeithasol, oedran neu fath o leoliad. Oherwydd llwybro, mae meintiau rhai o'r samplau'n fach wrth edrych ar y data ar y lefel hon. Lle mae hyn yn wir, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau gan fod newid bach mewn ymateb yn gallu newid y canlyniadau'n sylweddol. Dangosir y ffigurau sail islaw pob siart neu dabl i roi nifer yr ymatebwyr a atebodd unrhyw gwestiwn penodol a hefyd i nodi lle mae sail fach.


3.19 Oherwydd talgrynnu data i'r ganran gyfan agosaf, mae'n bosibl na fydd y data a roddir yn y tablau a'r siartiau'n adio i 100% mewn rhai achosion. Ar gyfer rhai cwestiynau, caniatawyd nifer o ymatebion felly yn aml bydd y data a roddir yn fwy na 100% wrth gyfansymio o'r herwydd.

# 4 Ymwybyddiaeth o ddiwygio Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru

4.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym yn trafod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cynlluniau ar gyfer diwygio ymysg y cyhoedd, graddau'r ymwybyddiaeth honno a sut y ceir gwybodaeth, ac ymwybyddiaeth o'r effaith ar yr ardal leol.

**Ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ar gyfer diwygio**

**Siart 1**




Sail: 1000 o ymatebwyr

4.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn fyr am eu hymwybyddiaeth o'r cynlluniau ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol ac roedd chwech o bob deg (60%) yn ymwybodol i ryw raddau, yn codi i 64% yn yr ardaloedd gwledig.

4.3 Roedd gan dros dri chwarter (76%) o'r bobl dros 55 oed rywfaint o ymwybyddiaeth ac roedd bron traean (32%) o'r grŵp hwn yn 'ymwybodol iawn' o'r cynlluniau ar gyfer diwygio. Pobl o dan 35 oed oedd y lleiaf ymwybodol (34%) a dim ond 7% a nododd eu bod yn 'ymwybodol iawn' o'r newidiadau arfaethedig. Roedd 70% o'r bobl yn y grŵp AB yn ymwybodol o'r diwygiadau ac roedd traean o'r rhain yn 'ymwybodol iawn'.

4.4 Mewn cyferbyniad, mae dau bumed 'heb fod yn ymwybodol o gwbl' (40%) ac mae hyn amlycaf ymysg y grwpiau C2 (45%) a DE (46%) ond yn arbennig ymysg pobl o dan 35 oed (65%). Mae hyn yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru deilwra dulliau cyfathrebu am ddiwygio Llywodraeth

Leol i gymryd i ystyriaeth ffactorau megis oedran a grŵp cymdeithasol, yn arbennig ymysg pobl o dan 35 oed.

4.5 Mae adborth a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau manwl yn awgrymu bod angen gwahanol ffyrdd o gyfathrebu i bobl o dan 35 oed gan nad ydynt o angenrheidrwydd yn gweld y ffyrdd mwy traddodiadol o gyfathrebu a anfonir gan gynghorau a chynghorwyr ac nad hwy yw'r prif berson cyswllt ar yr aelwyd bob amser felly ni fyddant o angenrheidrwydd yn cael gweld y wybodaeth hon.

4.6 Mae hyn yn adleisio canfyddiadau adroddiad a seiliwyd ar ddadansoddiad o ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru[2] sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn arbennig yn teimlo nad yw llywodraeth leol yn cyfathrebu'n dda iawn â phobl iau ynghylch perfformiad. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â'r gynulleidfa hon. Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll bod angen 'ymdrechion ychwanegol' i ymgysylltu â grwpiau eraill a allai fod yn agored i niwed megis pobl dlotach, pobl sy'n llai hyddysg a phobl hŷn oherwydd nad ydynt yn gweld bod ganddynt 'bŵer i ddylanwadu' ar benderfyniadau llywodraeth leol am resymau sy'n cynnwys diffyg gwybodaeth neu ddiddordeb.

**Graddau ymwybyddiaeth o ddiwygio llywodraeth leol**

4.7 Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau ansoddol yn awgrymu mai ychydig iawn sy'n gwybod yn fanwl beth yw'r cynlluniau arfaethedig, yn hytrach na'r cysyniad cyffredinol o leihau nifer y cynghorau, a bod angen i gynghorau fod yn fwy cost effeithiol yng ngoleuni'r gostyngiad yng nghyllid llywodraeth. Yr eithriad i hyn yw'r bobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol neu sy'n ymwneud â chynghorau cymuned, sydd â llawer iawn mwy o ymwybyddiaeth.

*"Dwi'n gweithio ym maes llywodraeth leol felly dwi'n llwyr ymwybodol ohono a dwi ddim yn meddwl ei fod yn mynd yn ddigon pell. Mae'r ad-drefnu'n gwbl anochel."* Dros 55 oed, gwryw, gwledig

*"Dwi'n gwybod yr awgrymwyd y bydden nhw'n uno eu hunain, yn hytrach na chael eu gorfodi i wneud. Mae lot o newid wedi bod dros amser a dyma ni eto.*

---

[2] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Boddhad â gwasanaethau awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, 2014

*Mae fel cylch, pan maen nhw'n fawr, maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n rhy fawr a phan maen nhw'n fach, maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n rhy fach."* Dros 55 oed, gwryw, trefol

*"Dwi ddim yn gwybod unrhyw beth penodol ond dwi'n gwybod bod angen iddyn nhw arbed arian a dwi'n meddwl eu bod nhw newydd orffen cam gwirfoddol yr ad-drefnu."* Dan 35 oed, benyw, gwledig


**Ffynonellau a ddefnyddir i gael gwybod am ddiwygio llywodraeth leol**

4.8 Mae'r rhan fwyaf o'r bobl a holwyd yn Rhan 2 wedi clywed am y rhaglen diwygio yn y cyfryngau, yn arbennig trwy newyddion lleol ar y teledu, ar lein, ar y radio ac yn y wasg leol. Crybwyllwyd sianelau'r BBC ac S4C yn benodol gan oddeutu un o bob pump o'r ymatebwyr.

4.9 Daeth pedwar ymatebydd o hyd i wybodaeth am y diwygiadau arfaethedig mewn cyfarfodydd cyngor a chlywodd un oddi wrth ei gynghorydd lleol trwy gylchlythyr, ond at ei gilydd mae'r ymatebwyr yn cael gwybodaeth trwy gyfryngau prif ffrwd.

**Ymwybyddiaeth o effaith y cynlluniau ar yr ardal leol**

**Siart 2**




Sail: 1000 o ymatebwyr

4.10 Mae pumed o'r ymatebwyr yn gwybod sut y gallai cynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol effeithio ar eu cymuned leol, heb unrhyw amrywiad yn ôl math o leoliad.

4.11 Ymysg y rheiny oedd yn 'ymwybodol iawn' o'r diwygiadau i ddechrau, mae 52% yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r effaith ar eu hardal leol ac mae

34% yn dweud nad ydynt, gan awgrymu mai ychydig o wybodaeth fanwl sydd ganddynt hyd yn oed os ydynt yn gwybod am y diwygiadau.


4.12 Pobl o dan 35 oedd sy'n lleiaf ymwybodol o'r effaith leol bosibl (10%) o gymharu ag 20% yn gyffredinol. Dynion sy'n fwyaf ymwybodol o'r effaith (25%) o gymharu ag 16% o fenywod. Grŵp cymdeithasol AB sy'n fwyaf ymwybodol o'r effaith bosibl (27%) o gymharu â chanran is o lawer yng ngrwpiau C2 (15%) a DE (18%).

# 5 Lefel gyfredol ymgysylltu â Llywodraeth Leol

5.1 Gofynnwyd nifer o gwestiynau am lefel gyfredol yr ymgysylltiad â Llywodraeth Leol trwy weithgareddau ymgynghori megis y rhai a nodir yn y siart isod. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r math o ymgynghori, mynychder ymgysylltu diweddar, pwnc yr ymgynghori a sut y daeth yr ymatebwyr i wybod am yr ymgynghoriad ac ymchwiliwyd i'r rhesymau pam nad oedd rhai'n cymryd rhan. Yn yr achos hwn cymerir mai ystyr gweithgarwch ymgynghori yw gweithgarwch lle mae awdurdodau lleol yn ceisio barn y cyhoedd yn gyfan yn hytrach na dim ond y broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer cynigion penodol.

**Cyfranogi mewn gweithgareddau ymgynghori**

**Siart 3**




Sail: 1000 o ymatebwyr


5.2 Cafodd yr ymatebwyr eu promtio gyda rhestr o'r gwahanol fathau o weithgarwch ymgynghori y gallent fod wedi dod ar eu traws. Dywedodd bron naw o bob deg o'r ymatebwyr (86%) nad oeddent wedi cymryd rhan

mewn unrhyw un o'r gweithgareddau hyn. Ychydig o amrywiaeth sydd rhwng lleoliadau trefol a gwledig. Fodd bynnag, y bobl yn y grwpiau cymdeithasol isaf (C2 a DE) sy'n lleiaf tebygol o gymryd rhan (88% ac 89% yn y drefn honno) o gymharu â phobl yn y grwpiau cymdeithasol uchaf - AB (81%) ac C1 (82%).

5.3 Lle'r oedd ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, y rhai y soniwyd amdanynt amlaf oedd 'mynd i gyfarfodydd cyngor neu weithgareddau craffu' (5%), 'mynd i ddigwyddiadau ymgynghori' (5%) a 'gweithgareddau neu arolygon ymgynghori' (5%).

**Rhesymau dros beidio â chyfranogi mewn gweithgareddau ymgynghori**

**Siart 4**




Sail: 855 o ymatebwyr; y bobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori

5.4 Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu rhesymau dros beidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch ymgynghori llywodraeth leol, cafodd yr ymatebion heb eu promtio eu dosbarthu i'r themâu uchod.

5.5 Nid oedd mwy na dau bumed (43%) yn gwybod am gyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ac ychydig o wahaniaeth oedd rhwng mathau o leoliad.

5.6 Dywedodd traean (33%) eu bod yn rhy brysur i gymryd rhan a dywedodd chwarter arall (26%) nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan.

5.7 Ni roddodd rhai unrhyw reswm penodol ond dywedodd eraill bod y ffactorau canlynol yn berthnasol i'r ffaith nad oeddent wedi cymryd rhan:


- Diffyg diddordeb yn y pynciau/dim byd o ddiddordeb wedi codi
- Credu na fyddai eu cyfraniadau yn gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol
- Afiechyd
- Anabledd, anhygyrch
- Henoed, anhygyrch
- Gofalwr, felly'n methu mynd allan o'r cartref
- Ddim yn gwybod sut i gymryd rhan

*"Fel arfer mae'r canlyniad yn amlwg ymlaen llaw felly ddim yn gweld diben."*

*"Doedd dim byd yn ennyn diddordeb felly pam fyddwn i eisiau cymryd rhan."*

**Mynychder ymwneud â gweithgareddau ymgynghori**

**Siart 5**





Sail: 145 o ymatebwyr; y bobl oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori (noder y sail fach)

5.8 O'r bobl oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, dim ond un tro roedd bron dau bumed (37%) yn cofio cymryd rhan yn y math hwn o weithgarwch yn y ddwy flynedd diwethaf ac nid yw hyn yn amrywio yn ôl lleoliad. Mae hyn yn awgrymu mai rhan gymharol fach mae'r cyhoedd yn ei chymryd mewn gweithgareddau ymgysylltu.

5.9 Dywedodd pumed nad oeddent wedi cymryd rhan mewn ymgynghori yn y ddwy flynedd diwethaf (19%) ond eu bod wedi gwneud cyn hynny. Roedd hyn yn wir amlaf ymysg y bobl mewn lleoliadau gwledig (26%).

## Pynciau ymgynghori

**Siart 6**




Sail: 145 o ymatebwyr; y bobl oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori (noder y sail fach)

5.10 Y pynciau ymgynghori y soniwyd amdanynt amlaf yw materion cynllunio ac ysgolion neu addysg, a gofiwyd gan fwy na chwarter (27%). Gwelwyd rhaglen diwygio sylweddol mewn rhai rhannau o Gymru yn rhai o'r meysydd gwasanaeth hyn, yn arbennig ym maes addysg oherwydd newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth addysg, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y pynciau a gofiwyd.

5.11 Soniwyd am iechyd a gofal cymdeithasol, ymgynghoriadau cyffredinol gan y cyngor, tai ac eiddo a gwasanaethau llyfrgell gan oddeutu pumed o'r ymatebwyr oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori.

5.12 Roedd y pynciau ymgynghori 'eraill' yn amrywiol ac yn cynnwys gwarchod cymdogaeth, materion lleol penodol, menter a datblygu lleol, materion

cyffredinol yn ymwneud â’r cyngor, trwyddedu, llifogydd, amwynderau i’r henoed a phobl anabl a rheoli coed.

5.13 Bydd rhai meysydd gwasanaeth megis priffyrdd, parcio a chludiant, a chynllunio yn aml yn golygu ymgynghori dim ond â’r preswylwyr hynny mae’r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ar sail ffactorau megis lleoliad.

5.14 Mae’r ymchwil hon yn dangos y bydd cyfran y preswylwyr yr ymgynghorir â hwy ynghylch rhai meysydd gwasanaeth yn cael ei phennu gan y gwasanaethau maent yn eu defnyddio, sydd yn ei dro’n gysylltiedig â’u cam bywyd neu ddewisiadau personol e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau hamdden ac ati. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn fwy ymwybodol o newidiadau arfaethedig i’r gwasanaeth na phobl nad ydynt yn ei ddefnyddio, a bydd hyn yn effeithio ar y graddau y maent yn ymwybodol o ymgynghori ar y meysydd gwasanaeth hynny.

**Materion y dylai llywodraeth leol ymgynghori yn eu cylch**

5.15 Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr pa faterion y mae’n bwysig i lywodraeth leol ymgynghori â’r cyhoedd yn eu cylch, yn eu tyb hwy. Mae’r cwestiwn hwn yn caniatáu inni ganfod pa faterion sy’n flaenoriaethau pennaf ym meddyliau’r ymatebwyr. Roedd hwn yn gwestiwn penagored yn hytrach na rhestr â phromtiau felly mae’r ymatebion a roddir isod wedi’u seilio ar y themâu a dynnwyd o’r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr.

5.16 Roedd y materion a godwyd yn amrywiol iawn ond roedd y rhai a grybwyllwyd amlaf yn debyg i lawer o’r rheiny y mae’r ymatebwyr yn cofio yr ymgynghorwyd â hwy yn eu cylch (a ddangosir yn Siart 6), er bod eu safleoedd ychydig yn wahanol.

5.17 Nid oedd gan bron chwarter (23%) unrhyw syniadau penodol am beth y dylai llywodraeth leol ymgynghori yn ei gylch.

5.18 Mae’n ddiddorol nodi mai ychydig o breswylwyr sy’n cofio yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch ‘cyllideb a gwario’ ond bod un o bob deg (9%) yn sôn amdano fel mater y dylid ymgynghori yn ei gylch yn eu tyb hwy.

5.19 ‘Iechyd a gofal cymdeithasol’ yw’r pwnc a grybwyllir amlaf y dylid ymgynghori yn ei gylch, o gymharu â’i safle yn y pynciau yr ymgynghorwyd yn eu cylch, sef trydydd:

- Iechyd a gofal cymdeithasol (15%)
- Ysgolion, addysg a dysgu (11%)
- Cyllidebau a gwario (9%)
- Ymgynghori cyffredinol ar bob mater (9%)
- Ffyrdd a phriffyrdd (6%)
- Hamdden, amwynderau a chyfleusterau (6%)
- Cynllunio neu reoli adeiladu (6%)
- Toriadau, cau cyfleusterau / gwasanaethau neu benderfyniadau mawr yn gyffredinol (5%)
- Glanhau, gwastraff a sbwriel (5%)
- Materion yn ymwneud â phobl ifanc (4%)
- Parcio a chludiant (4%)
- Awgrymwyd materion eraill gan gynnwys plismona (3%), mwy o dryloywder (3%), tai (3%), gwasanaethau llyfrgell (3%), treth gyngor/budd-daliadau (2%), iechyd yr amgylchedd (2%) a chyflogaeth (2%).

*"Mewn gwirionedd mae angen inni wario mwy o arian ar wasanaethau lleol fel gofal iechyd"*

*"Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig i lywodraeth leol ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch materion fel darpariaethau gofal cymdeithasol a strwythurau preswyl. Pynciau pwysig eraill i ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch yw adeiladu a chynnal a chadw llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden oherwydd dydyn ni ddim eisiau colli'r rheiny."*

*"Dylai fod mwy o feysydd chwarae i blant. Mwy o ymwneud â'r system addysg a dylai plant fynd i'r ysgol yn 3 mlwydd oed"*

*"Dylid ymgynghori â ni ynghylch sut mae ein harian yn cael ei wario, ble mae ein trethi'n mynd, pan maen nhw'n torri ar wasanaethau."*

*"Faint mae'r cynghorwyr yn cael eu talu, dylen nhw fod wedi ymgynghori â ni cyn rhoi codiad cyflog iddyn nhw eu hunain a diswyddo gweithwyr y cyngor i dalu amdano."*

### Cymhelliad i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori

5.20 Gofynnwyd i'r bobl a holwyd yn y cam ansoddol o'r gwaith am eu hymwneud â gweithgareddau ymgynghori dros y ddwy flynedd diwethaf a nododd naw o'r hanner cant o ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan.

5.21 Roedd y rhan fwyaf wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cynllunio yn ymwneud â gweithgareddau arfaethedig megis adeiladu carchar neu ysgol newydd, neu mewn rhai achosion ymgynghorwyd â hwy ynghylch cynlluniau i gau cyfleuster lleol megis swyddfa'r post neu lyfrgell.

5.22 Roedd yr ymatebwyr hyn yn mynd i gyfarfodydd cyngor neu ddigwyddiadau ymgynghori yn aml. Roedd un ymatebydd wedi cymryd rhan mewn grŵp ffocws yn y ddwy flynedd diwethaf ac mae dau ymatebydd ar baneli preswylwyr eu cyngor ac yn cwblhau holiaduron yn rheolaidd fel rhan o ymarferiadau ymgynghori'r cyngor.

5.23 Cymhelliad personol yw'r rheswm a grybwyllir amlaf dros gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgynghori i'r ymatebwyr hyn. Os yw'r bwriad i gau gwasanaeth – neu greu neu adeiladu un newydd – yn debygol o gael effaith bersonol arnynt, maent yn llawer mwy tebygol o fod eisiau llais yn yr hyn sy'n digwydd:

*"Roedd gen i awydd personol i gymryd rhan"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Roedd o ddiddordeb imi ac yn cael effaith arnaf i ac ar y bobl o'm cwmpas, dyna pam cymerais i ran"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

5.24 Roedd un o bob pump o'r ymatebwyr yn 'gymunedgar' yn gyffredinol ac yn dweud eu bod yn mynd i weithgareddau ymgynghori oherwydd eu bod eisiau ymwneud â'r materion sy'n effeithio ar eu cymuned.

*"Dwi yn y pentref ers amser maith ac erbyn hyn wedi cyrraedd oedran penodol ac eisiau gwneud mwy dros y gymuned"*
35-54 oed, trefol, gwryw

5.25 Roedd y pynciau ymgynghori eraill, yr oedd profiad personol yn ysgogi cymryd rhan ynddynt, yn cynnwys ffyrdd a mynediad, arwyddion, goleuadau, trafnidiaeth gyhoeddus, cynnal a chadw parciau, goryrru a chasglu sbwriel.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori**

5.26 Mae'r ffordd mae ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn ymgynghori'n amrywio, a gall fod yn rhagweithiol neu'n adweithiol. Mae clywed ar lafar yn chwarae rhan yn y ffordd mae pobl yn cael gwybod am weithgarwch ymgynghori, wrth iddynt siarad â chyfeillion, cymdogion a chydweithwyr.

5.27 Mae eraill yn sôn am gylchlythyrau neu storïau mewn papurau lleol. Dywedodd un ymatebydd bod cadeirydd y cyngor wedi dod ato a'i fod wedi cymryd rhan yn y ffordd honno.

**Boddhad â lefel yr ymgysylltiad a'r canlyniad**

5.28 Mae lefel y boddhad ymysg y naw ymatebydd sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgynghori yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn amrywio. Dywed rhai eu bod yn fodlon iawn, a dywed eraill eu bod yn anfodlon iawn.

5.29 Mae'r rheiny sy'n dweud eu bod yn fodlon yn dweud ei fod yn teimlo fel pe bai eu llais wedi cael ei glywed ac roeddent yn falch o gael cyfle nid yn unig i ddweud eu dweud ond hefyd i ddysgu mwy am yr hyn oedd yn digwydd.

*"Roeddwn i'n meddwl gan eu bod nhw yno'n cyfarfod â'r gymuned leol ei fod yn gyfle imi fynd i ofyn cwestiynau – roeddwn i'n meddwl ei fod yn dda"*
35-54 oed, gwledig, benyw

5.30 Teimlai'r rheiny oedd yn anfodlon mai 'ymarferiad ticio blychau' oedd y broses ymgynghori ac mai dim ond esgus ystyried eu barn yr oedd. Teimlent fod y penderfyniadau wedi cael eu gwneud eisoes ac roeddent yn llawer llai tebygol o gredu bod eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried yn llawn, yn enwedig ar faterion lle mae ymgynghori'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae hwn yn rhwystr mawr i ymgysylltu, fel y dangosir gan yr ymchwil feintiol lle nodwyd problemau tebyg.

*"Y rhan fwyaf o'r amser roedd yr agenda wedi'i phenderfynu eisoes ac roedden nhw'n ymgynghori â'r cyhoedd dim ond fel mater o ffurf yn unol â'r gyfraith"*
O dan 35 oed, trefol, gwryw

5.31 Hoffai'r ddau ymatebydd sydd ar banel preswylwyr wybod sut, os o gwbl, mae eu cyfraniad wedi cael ei ddefnyddio. Er eu bod yn falch o gymryd rhan, hoffent wybod canlyniad eu mewnbwn. Byddai ychwanegu adborth i'r broses o gymorth ac yn hybu ymgysylltu yn y dyfodol. Byddai sicrhau bod yna broses adborth sy'n dangos sut mae ymgynghori wedi effeithio ar benderfyniadau, a pha gamau sydd wedi cael eu cymryd, o gymorth i oresgyn y broblem hon i ryw raddau.

5.32 Dywed y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar ganlyniad eu hymwneud, hyd yn oed os na chawsant y canlyniad yr oeddent yn

gobeithio amdano. Mae rhai'n deall bod newidiadau'n digwydd, neu fod cyfleusterau'n cau, er gwaethaf ymdrech gref o'r gweithgarwch ymgynghori ac ymdrech cynghorwyr.

*"Cau wnaeth yr ysbyty ond o leiaf roedd y cynghorwyr yna'n cwffio. Doedd 'na ddim byd arall fasa'r cynghorwyr na'r gymuned wedi gallu gwneud – doedd 'na ddim bai ar y cynghorwyr"*
O dan 35 oed, gwledig, benyw

**Cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymarferiadau ymgynghori**

5.33 Barn gymysg sydd gan yr ymatebwyr ynghylch a roddir cyfle i'r cyhoedd gael rhan mewn materion yn ymwneud â llywodraeth leol. Er bod rhai'n fodlon ar y cyfleoedd sydd ar gael, mae eraill yn credu na chynigiwyd y cyfleoedd hynny ond o ganlyniad i bwysau gan y gymuned ac, mewn rhai achosion, cyhoeddusrwydd negyddol.

5.34 Mae rhai'n dweud yr hoffent weld mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ystyrlon ac yn credu y dylid dechrau gwneud hyn yn gynharach o lawer yn y broses, ymhell cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, fel bod cyfle o hyd i'w mewnbwn gael rhywfaint o ddylanwad.

5.35 Hoffai rhai ymatebwyr weld cynnydd cyffredinol mewn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch pob mater o bwys. Byddai'n well gan eraill gael y cyfle i awgrymu gweithgarwch ymgynghori ar faterion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n effeithio ar eu cymuned e.e. amddiffynfeydd rhag llifogydd.

*"Pan mae pethau wedi codi sy'n effeithio ar ein cymuned leol"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

**Sut mae preswylwyr yn clywed am ymgynghoriadau?**

5.36 Yn yr arolwg meintiol, gofynnwyd i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan mewn ymgynghori sut y clywsant am y gweithgarwch. Y dulliau mwyaf poblogaidd oedd:

- Cyfathrebu cyffredinol gan y cyngor (23%)
- Ar lafar (17%)
- Trwy gyswllt ag un o adrannau neu wasanaethau'r cyngor (12%)
- Cododd yr ymatebydd y mater oedd yn effeithio arno (12%)
- Y wasg neu gyfryngau lleol (10%)
- Trwy gyswllt â chynghorydd (9%)

5.37 Soniodd yr ymatebwyr o’r cam ansoddol am sianelau tebyg. Soniwyd am y wasg leol – mewn print ac ar lein – yn aml, felly hefyd hysbysebion mewn siopau a chyfleusterau lleol. Er bod llawer yn hoffi mynd ar lein i gael gwybodaeth, mae sylwadau gan ymatebwyr yn awgrymu nad oes gan bawb fynediad i’r rhyngrwyd ac nad yw pawb yn gyfforddus wrth ei ddefnyddio, ac y byddai’n well ganddynt ddeunydd printiedig.

5.38 Mae clywed ar lafar yn dal i fod yn ffordd bwysig i bobl gael gwybod am weithgarwch llywodraeth leol a allai effeithio arnynt.

**Dulliau cyfathrebu gan y cyngor sy’n cael eu cofio amlaf**

5.39 Sonnir am gylchlythyrau neu bapurau newydd copi caled gan un o bob tri a’r rhain yw'r dull cyffredinol o gyfathrebu gan y cyngor sy’n cael eu cofio amlaf fel ffordd o gael gwybod am weithgareddau ymgynghori ymysg y bobl yn yr astudiaeth feintiol.

5.40 Roedd y dulliau eraill o gyfathrebu gan y cyngor y soniwyd amdanynt yn cynnwys cylchlythyrau trwy e-bost, negeseuon e-bost cyffredinol a chyfarfodydd cyngor.


## 6 Argraffiadau o ymgysylltu yn y presennol ac yn y dyfodol

6.1 Edrychodd ymchwil feintiol Rhan 1 ar y lefelau diddordeb mewn ymgynghori, y boddhad â'r profiad presennol, y math o ymwneud y dylid ei ystyried yn y dyfodol a'r diddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol yn yr ardal leol.

6.2 Adeiladodd yr ymchwil ansoddol a wnaethpwyd yn Rhan 2 ar y themâu hyn ac edrychodd yn fanylach ar y boddhad â'r wybodaeth a ddarperir, canfyddiadau o dryloywder awdurdodau lleol, hyder yn y broses benderfynu, newidiadau yn y ffordd y dylid gwneud penderfyniadau a'r ffordd mae llywodraeth leol yn cyfathrebu â'r cyhoedd.

**Lefel diddordeb ym mhroses benderfynu llywodraeth leol**

**Siart 7**




Sail: 1000 o ymatebwyr


6.3 Mae diddordeb sylweddol ymysg y cyhoedd mewn gwneud rhywfaint o gyfraniad i weithgareddau llywodraeth leol a'r ffordd mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg. Mae ychydig llai na hanner (45%) yn nodi rhywfaint o ddiddordeb, canran sy'n codi i 48% yn yr ardaloedd gwledig.

6.4 Er bod y diddordeb yn fawr i rai, mae'r farn yn gymysg gan fod hefyd cyfran sylweddol o'r cyhoedd sy'n dangos ychydig o ddiddordeb neu ddim o gwbl mewn ymgysylltu â phroses benderfynu neu weithgareddau llywodraeth leol (39%).

6.5 Mae pobl o dan 35 oed yn dangos ychydig llai o ddiddordeb (40%). Ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol AB yw'r rhai sydd â'r diddordeb mwyaf (57%) o gymharu â phobl yng ngrwpiau C2 (38%) a DE (37%).

**Boddhad â'r cyfle i ddylanwadu ar weithgareddau llywodraeth leol**

**Siart 8**




Sail: 1000 o ymatebwyr

6.6 Roedd hanner y bobl a holwyd (50%) yn anfodlon ar lefel y cyfle sydd ganddynt i ddylanwadu ar weithgareddau llywodraeth leol, ac ychydig o amrywiad sydd rhwng lleoliadau trefol a gwledig. Mae'r anfodlonrwydd hwn yn codi i 60% ymysg pobl rhwng 35 a 54 oed ond mae i'w weld yn llai ymysg pobl o dan 35 oed (40%).

6.7 Er bod y ganran yn dal i fod yn gymharol isel, pobl yng ngrŵp cymdeithasol AB sy'n fwyaf bodlon ar lefel eu dylanwad (26%) o gymharu â 23% yn gyffredinol. Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y rhywiau.

**Gwybodaeth am y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cael eu rhedeg**

6.8 Yng ngham ansoddol yr ymchwil, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ydynt yn teimlo y rhoddir digon o wybodaeth iddynt am y ffordd mae'r awdurdod lleol yn eu hardal yn cael ei redeg a beth mae'n ei wneud.

6.9 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu na roddir digon o wybodaeth iddynt. Dangosir hyn hefyd yng nghanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, lle'r oedd 52% o'r ymatebwyr yn cytuno yr hoffent gael mwy o wybodaeth ynghylch sut mae eu cyngor yn perfformio.

6.10 Mae rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn cael cylchlythyr gan y cyngor trwy'r drws gyda rhywfaint o wybodaeth am ddiweddariadau ynghylch gweithgarwch y cyngor. Ond mae eraill yn dweud bod yn rhaid iddynt fynd ati i chwilio am wybodaeth, er enghraifft, trwy wefan awdurdod lleol, os ydynt eisiau cael gwybod mwy am yr hyn mae eu hawdurdod lleol yn ei wneud neu'n bwriadu ei wneud.

6.11 Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr yn fodlon ar faint o wybodaeth a roddir iddynt gan eu hawdurdod lleol – ond lleiafrif oedd yr ymatebwyr hynny.

6.12 Mae rhai o'r sylwadau gan gyfranogwyr yn adlewyrchu safbwyntiau am y wybodaeth a ddarperir:

*"Dwi ddim yn meddwl eich bod chi wir yn gwybod ble mae'r arian yn cael ei wario a byddai'n braf gweld ble mae'ch treth gyngor a'ch trethi cyffredinol yn mynd"*
O dan 35 oed, trefol, gwryw

*"Y flwyddyn galendr hon ces i lai o wybodaeth nag arfer, dim ond rhywbeth am newidiadau i'r dreth gyngor."*
35-54 oed, gwledig, gwryw

*"O ran cael gwybodaeth, does dim llawer yn cael ei rhoi, ond os ydych chi'n cymryd tipyn bach o ddiddordeb, gallwch weithio allan beth sy'n mynd ymlaen"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Rydyn ni'n cael papur newydd am ddim sy'n nodi'r gost a beth maen nhw'n ceisio ei wneud"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

6.13 Cymysg yw'r farn am y defnydd helaeth o gyfryngau lleol i ledaenu gwybodaeth am weithgarwch y cyngor i'r cyhoedd. Er bod llawer o'r ymatebwyr yn defnyddio papurau newydd a gwefannau lleol neu ranbarthol i ddysgu am eu hawdurdod lleol, mae rhai'n credu y byddai'n well i'r wybodaeth ddod yn uniongyrchol oddi wrth y cyngor, gan eu bod yn ofni 'sbin' gan y wasg.

**Tryloywder llywodraeth leol ac ymddiriedaeth ynddi**

6.14 Yn ystod y cyfweliadau ansoddol, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu canfyddiadau ynghylch tryloywder llywodraeth leol a faint maent yn ymddiried ynddi i weithredu er budd y cyhoedd.

6.15 Oherwydd yr ymddengys iddynt fod diffyg gwybodaeth gan awdurdodau lleol, mae llawer o'r ymatebwyr yn credu na fyddai'r awdurdodau, o bosibl, yn gweithredu mewn ffordd agored. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth hawdd ei chael, cyfarfodydd 'y tu ôl i ddrysau caeedig', neu'r diffyg gallu i gael gwybod am ddiweddariadau gan y cyngor ac am ei weithgareddau yn rhwydd trwy'r awdurdod lleol ei hun. Er bod y canfyddiad hwn yn gryf, mae'n bosibl ei fod yn ganlyniad i realiti a chymhlethdod rheoli'r gallu i gael gwybodaeth am lywodraeth leol a manylion am weithgareddau.

6.16 Mae rhai ymatebwyr yn credu nad ydynt ond yn clywed am newyddion ar ôl i gyngor wneud penderfyniad ac na roddir cyhoeddusrwydd digonol i'r gweithgarwch ymgynghori â'r cyhoedd, neu mai dim ond 'ymarferiad ticio blychau' yw'r gweithgarwch hwnnw. Teimlad rhai o'r ymatebwyr yw, pe bai llywodraeth leol wir eisiau cyfranogiad a phroses ymgynghori werthfawr, byddai'n cyflwyno'r ymarferiadau hyn yn gynharach o lawer yn y broses benderfynu.

*"Os oeddech chi eisiau cael gwybod am unrhyw beth, fel y ffordd liniaru i'r M4, mae'n rhaid ichi dreulio oesoedd yn chwilio am fanylion beth yn union sy'n digwydd"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

*"Maen nhw'n gweithredu ar sail dweud wrth y cyhoedd jyst cyn gwneud penderfyniadau neu newidiadau – ei gadael tan jyst cyn iddyn nhw gael eu gweithredu yn hytrach na rhoi cyfle i leisio barn i ddweud bod rhywbeth o'i le"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

*"Allai pobl ddim cael unrhyw ddylanwad go iawn ar y penderfyniad, dim ond mater o roi gwybodaeth i bobl oedd e a doedd y broses 'ymgynghori' ddim yn cynnwys pobl ... dylai ddechrau ymhell cyn hynny"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

6.17 Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn hyderus bod awdurdodau lleol yn gweithredu mewn ffordd agored ac onest, ond bod diffyg gwybodaeth – naill ai oherwydd pwysau amser neu ddifaterwch – yn golygu eu bod yn dibynnu ar awdurdodau lleol i weithredu

er budd eu hetholwyr heb gael gwybodaeth lawn am weithgarwch cynghorau.

*"Mae'n anodd dweud heb ymwneud yn fawr â'r hyn maen nhw'n ei wneud, ond rydyn ni'n hyderu eu bod nhw'n gwneud"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Dwi ddim yn gwybod digon amdano, dyna'r broblem. Allaf i ddim lleisio barn oherwydd dyw'r wybodaeth amdano ddim gen i"*
35-54 oed, trefol, benyw

6.18 Mae rhai'n dweud eu bod yn ymddiried mwy yn staff y cyngor nag yn y cynghorwyr, ac mae rhai'n dweud eu bod yn amau 'agenda wleidyddol' ymysg cynghorwyr.

*"Dwi'n meddwl bod y rhan fwyaf o gynghorwyr ynddi er eu lles eu hunain – dim ond cwpl sy'n ei wneud er mwyn helpu – dwi wir yn credu bod y rhan fwyaf yn ei wneud er mwyn eu hamcanion eu hunain"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

*"Mae'n debyg 'mod i o'r farn bod y rhan fwyaf o bobl, Aelodau Seneddol a chynghorwyr yn edrych ar ôl eu hardal eu hunain a dyna fe"*
Dros 55 oed, trefol, benyw

*"Yr agwedd wleidyddol sydd ddim yn gweithio i mi. All gwleidyddion ddim fod yn onest. Yn y diwedd rydyn ni'n eu hethol ac mae'n rhaid inni ymddiried ynddyn nhw"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Mae'r cyngor, sef swyddogion y cyngor, yn gweithio'n galed iawn. Yn anffodus, maent yn cael eu rheoli gan wleidyddion, ac mae'r gwleidyddion yn aml yn gweithio ar raddfa sydd ddim er lles yr etholwyr"*
35-54 oed, trefol, benyw

**Newidiadau yn y dyfodol a chyfathrebu**

6.19 Gofynnwyd i'r bobl a holwyd yn y cam ansoddol sut yr hoffent weld pethau'n cael eu gwneud yn wahanol yn y dyfodol yn nhermau cyfathrebu a dulliau ymgynghori.

6.20 Mae cyfathrebu uniongyrchol gan lywodraeth leol, yn hytrach na thrwy'r cyfryngau, yn allweddol yn ôl yr ymatebwyr. Byddai bod yn agored yn y ffordd mae llywodraeth leol yn gweithredu – a rhoi gwybod am weithgarwch yn rheolaidd – yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd.

6.21 Er bod y ffordd y mae pobl yn hoffi i lywodraeth leol gyfathrebu â hwy'n amrywio'n fawr, y ddwy ffordd y sonnir amdanynt amlaf yw cylchlythyrau

printiedig a'r cyfryngau cymdeithasol. O ran cyfarfodydd cyngor, mae rhai ymatebwyr hefyd yn crybwyll hysbysebion yn y wasg leol.

6.22 Mae ymgynghori agosach â'r cyhoedd, yn arbennig ynghylch materion a allai effeithio'n uniongyrchol ar gymuned, yn newid arall a grybwyllir yn rheolaidd ac yr hoffai ymatebwyr i lywodraeth leol ei fabwysiadu. Er bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd, o bosibl, mae rhai ymatebwyr yn dweud nad ydynt yn gwybod am gyfleoedd ymgynghori tan ymhell i mewn i'r broses neu ar ei hôl.

6.23 Gan gofio hyn, mae'r ymatebwyr eisiau cyfathrebu cryfach, ymhell cyn cyfarfodydd. Mae rhai'n credu y dylid ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd ystyrlon yn gynharach yn y broses er mwyn mesur barn y cyhoedd.

6.24 Sonnir am ymgysylltu'n gynnar nid yn unig mewn perthynas â materion penodol, ond hefyd yng nghyd-destun ehangach y gymuned. Mae cael pobl ifanc i ymwneud â gweithgarwch y gymuned a'r cyngor yn bwysig i rai ymatebwyr. Awgrymwyd mabwysiadu'r sianelau a ddefnyddir gan bobl ifanc – megis cyfryngau cymdeithasol – neu eu defnyddio mwy.

*"Dylen nhw wneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Cyfathrebu a bod yn agored a thryloyw – addysgu pobl am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac yna os ydyn nhw angen cael cefnogaeth i gynnig penodol, byddai pobl yn deall pam mae'r cyngor yn gwneud hyn"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Cyfathrebu'n well, ac a dweud y gwir cyfathrebu mwy, gyda'r cyhoedd"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Dwi'n meddwl bod lot ohono fo'n dod lawr i jyst cyfathrebu a siarad efo'r bobol. Mae rhywun yn deall bod pres yn brin ond wrth guddio pethau mae nhw ond yn colli trust"*
O dan 35 oed, gwledig, benyw

*"Dwi'n meddwl pan maen nhw'n bwriadu cau cyfleusterau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, cyn iddyn nhw wneud penderfyniadau mae angen iddyn nhw ymgynghori â phobl leol yn agosach"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw


*"Cynnwys pobl yn y broses ymgynghori'n llawer cynharach cyn bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud eisoes"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

*"Dwi'n meddwl bod angen iddyn nhw ymgynghori llawer mwy ac yn ehangach o lawer, a defnyddio fformatau gwahanol. Mwy o fformatau electronig i ymgysylltu â'r genhedlaeth iau"*

O dan 35 oed, trefol, benyw

**Ffyrdd a ffefrir o ymwneud ag ymgynghori yn y dyfodol**

**Siart 9**




Sail: 1000 o ymatebwyr

6.25 Pan ofynnwyd pa fath o weithgarwch ymgynghori yr hoffent ei gael yn y dyfodol, y mathau a grybwyllwyd amlaf oedd mwy o gyswllt â chynghorwyr (29%), gweithgareddau / arolygon ymgynghori (29%), mynd i ddigwyddiadau ymgynghori (25%), a mynd i gyfarfodydd cyngor / craffu (19%).

6.26 Roedd digwyddiadau cydystyried[3] hefyd o ddiddordeb i 16% o'r ymatebwyr, felly hefyd cymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu weithdai (16%) a fforymau neu grwpiau arbenigol (15%).


[3] Diffiniwyd digwyddiadau cydystyried fel "cymryd rhan mewn ystyriaethau grŵp manwl o bwnc penodol" a defnyddiwyd enghreifftiau, lle roedd angen, i esbonio hyn ymhellach yn ystod yr arolygon.

6.27 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion 'arall' yn unigolion a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn gyffredinol (36%) neu'n benodol oherwydd cyfyngiadau amser (2%), anabledd neu oedran (2%) neu oherwydd nad oeddent yn credu y byddai unrhyw weithredu'n deillio o gymryd rhan (1%).

6.28 Mae lefel botensial cymryd rhan yn llawer uwch na'r lefel ar hyn o bryd ac mae'n glir nad yw un ffordd o ymgynghori'n addas i bawb. Nodwyd themâu tebyg yn yr ymchwil ddilynol ar adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol[4], a ganfu fod rhai grwpiau o breswylwyr yn llai tebygol o deimlo bod ganddynt y 'pŵer i ddylanwadu' ar benderfyniadau a wneir ar weithgareddau llywodraeth leol. Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod angen sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori'n cael eu cynllunio er mwyn rhoi mynediad i bawb a ddylai gael y cyfle i ymateb oherwydd bod pwnc yr ymgynghoriad yn effeithio arnynt. Bydd angen rhoi ystyriaeth i hygyrchedd y broses ymgynghori ac adolygu amrywiaeth o fannau mynediad - ar lein ac oddi ar lein - er mwyn adlewyrchu anghenion preswylwyr.

### Lefel y diddordeb mewn ymwneud â gweithgarwch cymunedol

**Siart 10**




Sail: 1000 o ymatebwyr

6.29 Rhoddwyd enghreifftiau i'r ymatebwyr o'r ffordd mae rhai cymunedau wedi cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau a ddarparwyd gynt gan lywodraeth

[4] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Boddhad â gwasanaethau awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, 2014

leol, megis llyfrgelloedd lleol, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, cynlluniau gwylio cyflymder a rhedeg digwyddiadau cymunedol.

6.30 Dywedodd traean o'r holl ymatebwyr (33%) fod ganddynt rywfaint o ddiddordeb mewn ymwneud â gweithgarwch cymunedol yn yr ardal leol, ac mae'r ganran hon yn codi i 37% yn yr ardaloedd gwledig o gymharu â 31% yn yr ardaloedd trefol. Yn yr un modd, mae oedran yn chwarae rhan yn y lefel diddordeb; pobl o dan 35 oed sydd â'r diddordeb mwyaf (44%) o gymharu â dim ond 28% o'r bobl dros 55 oed.

6.31 Ymysg menywod mae'r diddordeb ar ei uchaf, gyda mwy na thraean (35%) yn dangos diddordeb o gymharu â 30% o wrywod. Yn yr un modd, dangosodd grŵp cymdeithasol AB ychydig mwy o ddiddordeb na'r cyfartaledd (36%).

6.32 Nid oedd gan fwy na hanner (53%) ddiddordeb mewn cymryd rhan, yn arbennig pobl dros 55 oed (59%) o gymharu â 42% o bobl o dan 35 oed. Grŵp cymdeithasol C2 sydd â'r diddordeb lleiaf (58%) o gymharu â 46% yng ngrŵp AB. Mae amrywiaeth o resymau dros y diffyg diddordeb ymddangosiadol mewn cymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol ac edrychir yn fanylach ar y rhain isod.

**Ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned a ffactorau ysgogi allweddol**

6.33 Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r ymchwil meintiol, gofynnwyd i'r ymatebwyr yn ymchwil ansoddol Cam 2 am y graddau y maent yn ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned. Diffiniasom 'weithgareddau dan arweiniad y gymuned' fel 'sefydlu, rhedeg neu ddarparu gwasanaethau neu ddigwyddiadau yn y gymuned leol oedd yn aml yn cael eu darparu gynt gan lywodraeth leol megis llyfrgelloedd cymunedol, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, cynlluniau gwylio cyflymder a rhedeg digwyddiadau cymunedol.'

6.34 O'r 50 o ymatebwyr a holwyd, mae deg wedi ymwneud â gweithgarwch dan arweiniad y gymuned. Mae gan weithgarwch dan arweiniad y gymuned ffactorau ysgogi tebyg i ymwneud ag ymgynghori llywodraeth leol, gan fod ymatebwyr yn fwy tebygol o ymwneud â mater sy'n golygu rhywbeth iddynt, ond mae'n fwy tebygol o gael ei ysgogi gan emosiwn ac mae'r ymwneud yn debygol o fod yn fwy rhagweithiol gyda'r ymatebwyr yn

penderfynu mynd ati i ymwneud. Er enghraifft, roedd un ymatebydd sydd â mab anabl yn ymwneud â fforwm gofalwyr, roedd un arall sy'n ymwneud â cherddoriaeth wedi ymwneud â darparu gŵyl gerddoriaeth.

6.35 Mae ymatebwyr yn gweld gweithgarwch dan arweiniad y gymuned fel peth tebycach i waith elusennol a ffordd o roi'n ôl i'r gymuned, o gymharu â gweithgarwch ymgynghori a ystyrir yn debycach i 'ddatrys problemau'.

6.36 Mae ymatebwyr yn gweld rhoi amser fel gwirfoddolwr – boed wrth gynnal a chadw parc cyhoeddus, codi arian i elusennau lleol, neu weithio gyda phobl anabl neu'r henoed – fel gwaith boddhaol ond gwaith sy'n galw am fuddsoddi amser, egni ac ymdrech. Mae'r symbyliad i ymwneud â'r mathau hyn o weithgareddau'n tueddu i ddod o brofiad personol o wasanaeth neu ymwybyddiaeth o angen.

6.37 Fel yn achos gweithgarwch ymgynghori, roedd rhai ymatebwyr wedi clywed am weithgarwch dan arweiniad y gymuned ar lafar, ac mae eraill yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o gymryd rhan. Os yw gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol arnynt hwy, neu aelod o'u teulu, yn aml byddant yn chwilio am ffyrdd o gefnogi'r gwasanaeth hwnnw trwy roi eu hamser i helpu, codi arian neu ledaenu ymwybyddiaeth.

6.38 I rai ymatebwyr, mae'r diffyg diddordeb ymddangosiadol mewn cymryd rhan weithiau'n adlewyrchu diffyg gallu yn hytrach na diffyg awydd i gymryd rhan. Ymdrinnir yn fanylach â hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

*"Roeddwn i'n ddefnyddiwr gwasanaeth fy hun. Roeddwn i wedi bod yn yr ysbyty am fisoedd, yna dywedodd y nyrs wrtha i am y prosiect cymryd rhan. Dwi wir yn falch ei bod wedi gwneud neu fyddwn i ddim wedi gwybod amdano fel arall"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

*"Clywais i ar lafar a dwi'n gwybod bod cymdogion eraill yn cymryd rhan, felly fe es i"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

6.39 Mae'r awydd i ymwneud â rhyw fath o weithgarwch cymunedol wedi ysgogi rhai ymatebwyr i chwilio am grwpiau gwirfoddoli er mwyn gweld lle gellid gwneud y mwyaf o'u help.

*"Es i AVOW yn Wrecsam – grŵp gwirfoddoli lleol, debyg i ganolfan recriwtio – a rhoeson nhw restr o opsiynau i mi"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Trwy Gymunedau yn Gyntaf"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

6.40 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch dan arweiniad y gymuned yn fodlon ar lefel eu hymwneud a chanlyniad eu hymdrechion. Maent yn teimlo boddhad â chanlyniadau'r gydymdrech o weithio gydag eraill yn y gymuned.

*"Dwi'n hapus iawn, iawn gydag ef i gyd – rydyn ni i gyd yn gwneud ein rhan"*
35-54 oed, trefol, benyw

**Agweddau at gyfrifoldebau dinesig yn y gymuned**

6.41 Gofynnwyd i'r ymatebwyr yng ngham ansoddol y gwaith hefyd am eu hagweddau at gyfrifoldebau dinesig, megis ymwneud â gweithgareddau cymunedol, digwyddiadau a gweithgareddau cyngor. Yn fras mae'r ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig i bobl a chymunedau gydweithio i ddarparu gwasanaethau cymunedol ond mae nifer o bryderon ynghylch sut y gellir cyflawni hyn ac na ddylai'r gymuned gael ei gorlwytho a bod yn gwbl gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.

6.42 Os nad yw'n ymarferol yn ariannol i lywodraeth leol gynnal gwasanaeth, mae rhai ymatebwyr yn credu y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb i gymunedau. Mae ymatebwyr yn awgrymu mai diben hyn yw nid yn unig sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu, ond eu bod yn cael eu darparu gan bobl sy'n deall sut y bydd y gymuned yn cael y budd mwyaf o'r gwasanaeth neu'r digwyddiad.

6.43 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn credu bod angen i'r sector cyhoeddus fod â rhan o hyd ac y dylai darpariaeth fod yn bartneriaeth ac nid yn drosglwyddiad. Dylai'r cymorth cyhoeddus hwn gynnwys naill ai cyllid neu o leiaf cymorth anariannol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r gwasanaeth gael ei ddarparu o hyd, er enghraifft, cymorth hwyluso neu gydgysylltu. Nid yw'r rhan fwyaf yn credu y dylid defnyddio gweithgarwch dan arweiniad y gymuned fel ffordd o dorri costau neu i gynghorau ymryddhau o gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau.

*"Yn ddiau. Os oes angen i'r gwasanaeth hwnnw gael ei gynnal. Os nad yw'n ymarferol yn ariannol i gyngor ei gadw i fynd yna mae'n rhaid i ni ei gadw i fynd"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Gall pobl â gwybodaeth leol wneud llawer i helpu, mae'n bwysig bod â'r wybodaeth honno na fyddai gan neb ond rhywun lleol"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Mae angen i ni ei gadw i fynd, neu byddwn ni'n ei golli"*

O dan 35 oed, trefol, gwryw

*"Os oes maes chwarae ac mae angen i ni ei achub, mae'n well mai'r bobl sy'n defnyddio'r maes chwarae sy'n cymryd rhan"*
Dros 55 oed, trefol, benyw

**Ffactorau sy'n ysgogi peidio ag ymgysylltu â gweithgarwch cymunedol**

6.44 Ymchwiliwyd i'r rhesymau pam nad yw'r cyhoedd yn ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned yn y cam ymchwil ansoddol hefyd.

6.45 Yn aml mae ymrwymiadau gwaith, bywyd teuluol a chyfrifoldebau eraill yn golygu na all pobl fforddio rhoi amser i gefnogi gwasanaeth neu ddigwyddiad lleol. Mae hwn yn un o'r prif ffactorau sy'n ysgogi peidio ag ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol. Weithiau mae awydd i ymwneud â gweithgareddau ond mae'r ymdrech a'r gwaith trefnu mae eu hangen i gymryd rhan yn rhwystr anodd ei oresgyn.

6.46 Rheswm arall a grybwyllir yn aml pam nad yw pobl yn ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned yw diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal, pa gymorth mae ei angen, a sut y gall pobl ymwneud â gwasanaeth sy'n cael ei gymryd drosodd gan y gymuned.

6.47 Mae ymatebwyr yn nodi bod llawer o ddifaterwch yn y gymuned gan rai pobl – hyd yn oed os ydynt yn gwarafun diflaniad gwasanaeth – yn golygu bod rhai gweithgareddau dan arweiniad y gymuned yn cael trafferth i gael y gefnogaeth mae ei hangen. Os nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth eu hunain, neu os nad yw ei ddiddymu'n cael llawer o effaith neu ddim effaith o gwbl arnynt, mae'n llai tebygol y bydd ganddynt ymdeimlad o unrhyw gyfrifoldeb dinesig.

*"Amser – os ydych chi'n gweithio ac mae teulu gennych chi yna amser yw'r broblem fwyaf, mae'n debyg"*
O dan 35 oed, trefol, gwryw

*"Dim eisiau trafferthu, difaterwch mewn gwirionedd"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Diffyg amser a diddordeb mewn cymryd rhan"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Dwi ddim yn meddwl bod y rhan fwyaf o bobl hyd yn oed yn gwybod bod y pethau 'ma'n digwydd ac mae pobl yn tueddu i gymryd rhan dim ond yn y pethau sy'n cael effaith uniongyrchol arnyn nhw"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

# 7 Mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu a chymryd rhan

7.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion o ymchwil ansoddol Rhan 2. Nid yw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori na gweithgareddau dan arweiniad y gymuned.

7.2 Yn yr adran hon, ymdrinnir â'r rhesymau dros beidio ag ymwneud ag unrhyw weithgareddau. Hefyd gofynnwyd i'r bobl nad ydynt yn ymwneud â'r naill weithgaredd na'r llall a fyddent yn gwybod sut i gymryd rhan pe baent eisiau gwneud a'r tebygolrwydd y byddent yn ystyried cymryd rhan yn y dyfodol.

7.3 Mae'n anochel bod rhywfaint o orgyffwrdd â rhannau cynharach yr adroddiad yn yr adran hon er bod y canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn ymwneud â'r bobl nad ydynt yn ymgysylltu â llywodraeth leol o gwbl.

**Ffactorau sy'n ysgogi peidio ag ymgysylltu**

7.4 Mae'r prif ffactorau sydd ar waith yma'n cynnwys cyfyngiadau amser, problemau o ran ymwybyddiaeth, iechyd a faint o ddiddordeb sydd yn y pwnc. Mae difaterwch cyffredinol ynghylch llywodraeth leol hefyd yn rhwystr arwyddocaol.

7.5 Mae cyfyngiadau amser yn un rheswm a grybwyllir yn aml pam nad yw rhai ymatebwyr yn ymwneud â materion lleol. Nid yw gweithio amser llawn a magu teulu neu fod ag ymrwymiadau eraill yn gadael llawer o amser i rai pobl gymryd rhan mewn ymgynghori neu weithgarwch dan arweiniad y gymuned.

*"Mae fy llwyth gwaith yn rhy fawr ac mae gen i blentyn felly alla i ddim gwneud dim byd gyda'r nos"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

*"Dwi'n gweithio chwe diwrnod yr wythnos a dwi'n astudio rhan amser at radd"*
O dan 35 oed, trefol, gwryw

7.6 Mae ymatebwyr hefyd yn sôn yn rheolaidd am ddiffyg ymwybyddiaeth o unrhyw gyfleoedd i gymryd rhan. Mae peidio â gwybod am weithgarwch ymgynghori â'r cyhoedd yn y gymuned yn golygu nad ydynt yn cymryd rhan, er bod rhai'n dweud y byddent wedi gwneud pe baent wedi cael gwybod am y digwyddiad ymlaen llaw.

*"Yn y bôn mae'n fater o gyfathrebu. Os nad ydw i'n gwybod bod rhywbeth yn digwydd, sut alla i gymryd rhan?"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Mae angen gwella'r ffyrdd o gyfathrebu er mwyn annog pobl i gymryd rhan – roedd 'na bobl oedd eisiau mynd i gyfarfod na aeth iddo dim ond oherwydd nad oedden nhw'n gwybod amdano"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

7.7 Mae iechyd yn ffactor sydd wedi atal ychydig o ymatebwyr rhag ymwneud ag ymgynghori neu weithgarwch dan arweiniad y gymuned.

*"Alla i ddim oherwydd anabledd, does gen i mo'r egni i ymwneud â phethau"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Fedra i ddim symud ryw lawer rŵan. Dwi wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yn y pentre lle dwi'n byw ac mae amser yn dod pan 'dach chi'n meddwl "Dwi wedi gwneud digon"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

7.8 Mae rhai ymatebwyr yn credu y byddent yn cymryd rhan, pe bai'n fater oedd o ddiddordeb iddynt neu'n effeithio arnynt. Ond os nad yw gweithgarwch yn arwyddocaol iddynt, yna maent yn peidio â chymryd rhan.

*"Dwi'n meddwl mai problemau yw'r ysgogiad, pe bai 'na broblemau sylweddol yr hoffwn eu newid yn y gwasanaeth byddwn i'n ei wneud"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

7.9 Difaterwch yw'r rheswm pam nad yw rhai ymatebwyr yn ymwneud â gweithgarwch. Mae eraill wedi dadrithio ac yn credu na fyddai eu cyfraniad yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad yn y pen draw.

**Gwybod sut i gymryd rhan**

7.10 Mae ymatebwyr wedi'u rhannu o ran gwybod sut i ymwneud â gweithgarwch, pe baent eisiau gwneud.

7.11 Er bod un o bob pump o'r ymatebwyr yn dweud nad ydynt yn gwybod ble y byddent yn troi, mae eraill yn sôn am wefannau cyngor, cylchlythyrau, papurau lleol, siarad yn uniongyrchol â chynghorydd neu ymuno â grŵp cymunedol.

**Hybu ymgysylltu a chymryd rhan**

7.12 Gan nad yw cyfran fawr o’r ymatebwyr yn ymwneud ag ymgynghori na gweithgarwch dan arweiniad y gymuned, mae newid y canfyddiadau hyn a mynd i’r afael â’r problemau cysylltiedig yn creu her sylweddol. Gofynnwyd i’r ymatebwyr beth ellid ei wneud i annog pobl i gymryd rhan ac a fyddent yn debygol o gymryd rhan yn y dyfodol.

7.13 Dywedodd rhai ymatebwyr nad ydynt wedi ymwneud ag unrhyw fath o weithgarwch yn y ddwy flynedd diwethaf y byddent o bosibl yn ei ystyried yn y dyfodol, pe bai ganddynt fwy o amser neu ddiddordeb ym mhwnc y gweithgaredd neu pe bai’n effeithio arnynt. Fodd bynnag, dywed eraill na allent feddwl am unrhyw beth a fyddai’n eu hannog i gymryd rhan.

7.14 O ran annog pobl i ymwneud â gweithgareddau ymgynghori neu’n arbennig gweithgareddau cymunedol yn y dyfodol, mae cyfathrebu’n hollbwysig. Mae llawer o’r ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig rhoi gwybod i bobl pa fath o weithgareddau y gallant ymwneud â hwy a pha effaith y gallent ei chael.

*“Cyhoeddusrwydd – lledaenu’r neges, dyna’r peth”*
35-54 oed, gwledig, gwryw

7.15 Mae cyfranogwyr yn pwysleisio y dylai unrhyw gyfathrebu fod yn amserol, gan roi gwybod i bobl ymlaen llaw sut y gallant gymryd rhan – nid ei gadael yn rhy agos i’r digwyddiad neu weithgaredd.

*“Weithiau pan mae nhw’n cymryd rhan mewn pethau cymunedol, fel goleuadau Nadolig, wneith nhw ofyn am help gan bobol yn y gymuned ond gofyn diwrnod cyn y digwyddiad – os fasan nhw’n gofyn mis ynghynt mi fasa pawb wedi gallu helpu”*
O dan 35 oed, gwledig, benyw

7.16 Sonnir yn aml am hysbysiadau mewn papurau lleol, cylchlythyrau a hysbysebu mewn siopau, llyfrgelloedd a gwasanaethau lleol fel ffyrdd o roi gwybod i bobl beth sy’n digwydd ar lefel llywodraeth leol ac yn y gymuned. Dylid hefyd harneisio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngrwyd i annog pobl i gymryd rhan. Mae’r dulliau hyn yn gyson yn fras â’r ffordd mae ymatebwyr yn dweud eu bod yn cael gwybod am weithgareddau ymgynghori llywodraeth leol.

*“Rhoi mwy yn y wasg ymlaen llaw – os byddwch chi’n cael pobl i drafod, i siarad amdano ymlaen llaw, byddan nhw’n dod”*

35-54 oed, gwledig, gwryw

*"Eu hysbysebu, ac nid dim ond ar y rhyngrwyd – ar hysbysfyrddau yn Swyddfa'r Post, mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

7.17 Mae ymatebwyr yn dadlau bod addysgu'r cyhoedd yn mynd law yn llaw â chyfathrebu. Gallai ymgysylltu â phobl pan maent yn ifanc helpu i fynd i'r afael â difaterwch wrth i genedlaethau newydd dyfu i fyny. Mae rhai cyfranogwyr wedi awgrymu cynnwys dinasyddiaeth mewn addysg yn yr ysgol, fel ffordd o annog pobl iau i ymwneud â'r ffordd mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg ac yn pwysleisio pwysigrwydd cymryd perchnogaeth o gymunedau.

*"Gallen nhw gymryd rhan ar lefel ieuenctid, mae 'na grwpiau ieuenctid o gwmpas felly cymryd rhan ynddyn nhw a cheisio helpu pobl fel yna"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

7.18 Ni ddylai addysg a chodi ymwybyddiaeth fod yn gyfyngedig i bobl ifanc, yn ôl rhai ymatebwyr. Gallai'r difaterwch mawr a welir gan rai gael ei leddfu trwy ddiweddariadau rheolaidd a gwybodaeth a roddir i'r cyhoedd.

*"Mae llawer ohono'n ymwneud ag ymwybyddiaeth – sicrhau bod pobl yn ymwybodol o beth yw'r materion o bwys, beth allan nhw ei wneud, ble i fynd a phwy i gysylltu â nhw"*
35-54 oed, trefol, gwryw

*"Os caiff pobl wybod y bydd yn effeithio ar eu bywyd byddan nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

7.19 Gallai cynnal cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd ac amserol annog mwy o bobl i ymwneud â gweithgarwch ymgynghori, yn ôl rhai ymatebwyr.

*"Cyfarfodydd misol, ond mae i gyd yn dibynnu ar beth yw agenda'r cyngor. Mae angen iddyn nhw ddarparu gwybodaeth lawn ymlaen llaw a manylion llawn am beth mae'r cyfarfod yn ei olygu"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

**Dulliau cydystyried ac ymgynghori trwy arolygon**

7.20 Yn nhermau ffyrdd o gymryd rhan, mae amrywiaeth yn bwysig. Unwaith eto, mae ymatebwyr yn awgrymu y byddai cyfarfodydd rheolaidd ar adeg gynnar yn y broses ymgynghori yn gwneud i bobl deimlo y gallent gael mwy o effaith nag y mae rhai'n teimlo ar hyn o bryd.

7.21 Nid 'cyfarfodydd arwynebol' ddylai'r rhain fod, gan fod ymatebwyr yn hoffi syniad digwyddiadau gyda mwy o gydystyried ynghylch materion maent yn teimlo'n gryf amdanynt neu a fydd yn effeithio arnynt.

*"Dylai fod yn fwy ystyrlon ac yn gynharach yn y broses cyn i benderfyniadau gael eu gwneud"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

*"Mae digwyddiadau cydystyried yn swnio'n wych. Dwi'n meddwl y dylen ni i gyd wneud hynny. Rydych chi hefyd yn cael gwybod beth yw barn pobl eraill yn y gymuned"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

7.22 I gyrraedd cynulleidfa fwy, mae ymatebwyr wedi awgrymu arolygon fel ffordd o gael pobl i ymgysylltu gan fod yr ymgynghoriad yn dod atynt hwy ac yn gofyn am lai o ymdrech gan bobl ddifater, pobl sydd o dan bwysau amser a phobl sydd â phroblemau iechyd.

*"Mae arolygon yn syniad da, does dim ots gen i lenwi arolygon ond yn aml iawn dwi'n gwneud arolwg yna dwi ddim yn clywed dim mwy amdano, felly efallai gwneud gwaith dilynol – rhoi gwybod i ni beth yw'r canlyniad"*
Dros 55 oed, trefol, benyw

*"Cyfuniad o fynd i gyfarfodydd a gwneud arolygon er mwyn caniatáu i bawb leisio barn"*
35-54 oed, trefol, benyw

# 8 Cynghorwyr Lleol


8.1 Yn y rhan hon, rydym yn rhoi manylion am y wybodaeth a gasglwyd yn nwy ran yr arolwg. Roedd ymchwil Rhan 1 yn ymdrin ag ymwybyddiaeth o gynghorwyr lleol, lefel cyswllt, a boddhad canfyddedig â gwaith cynghorwyr a thâl cynghorwyr.

8.2 Roedd ymchwil Rhan 2 yn ymdrin â rhai o'r pynciau hyn yn fanylach ac fe gasglodd wybodaeth am yr ymwybyddiaeth, y math o gyswllt a sut maent yn cyfathrebu â phreswylwyr, tâl cynghorwyr a'i werth canfyddedig, rôl cynghorwyr a pha mor dda y caiff ei chyflawni a syniadau ynghylch pa weithgareddau/tasgau mae cynghorwyr yn eu cyflawni a pha rai y dylent eu cyflawni.

8.3 Gan ymhelaethu ymhellach ar hyn, edrychodd yr ymchwil ansoddol hefyd ar faint o ddiddordeb oedd mewn bod yn gynghorydd, y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod ymlaen, a'r graddau y dylai oedran a chefndir cynghorwyr adlewyrchu'r gymuned leol.

**Ymwybyddiaeth o gynghorwyr lleol**

**Siart 11**




Sail: 1000 o ymatebwyr


8.4 Yn gyffredinol, mae ychydig mwy na hanner yr holl ymatebwyr (51%) yn dweud eu bod yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol. Mae'r ymwybyddiaeth uchaf yn yr ardaloedd gwledig lle mae chwech o bob deg (61%) yn dweud eu bod yn gwybod o gymharu â llai na hanner (46%) yn yr ardaloedd trefol.

8.5 Mae lefel yr ymwybyddiaeth hefyd yn codi gydag oedran. Dim ond 20% o'r bobl o dan 35 oed sy'n gwybod pwy yw eu cynghorydd o gymharu â 48% o'r bobl 35-54 oed a mwy na dau draean (67%) o'r bobl dros 55 oed. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y rhywiau.

8.6 Y bobl yng ngrwpiau cymdeithasol AB sy'n fwyaf tebygol o wybod pwy yw eu cynghorydd (59%) ac mae ychydig mwy o ymwybyddiaeth gan grwpiau DE (54%) o gymharu â 51% i'r bobl yng ngrwpiau C.

**Cyswllt â chynghorwyr**

**Siart 12**




Sail: 513 o ymatebwyr; y rheiny oedd yn ymwybodol o'u cynghorydd lleol

8.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am unrhyw gyswllt yr oeddent wedi'i gael â'u cynghorydd lleol yn y ddwy flynedd diwethaf. Ni soniwyd am unrhyw fathau penodol o gyswllt wrth ofyn y cwestiwn hwn, felly gallai'r ymatebion ymwneud ag amrywiaeth fawr o wahanol fathau o gyswllt megis cyfarfodydd personol, ymweliadau, galwadau ffôn a gwybodaeth trwy'r post. Gallai cyswllt hefyd gyfeirio at gyfathrebu y gofynnwyd amdano neu na ofynnwyd amdano.

8.8 Mae bron hanner (48%) y bobl oedd yn ymwybodol o'u cynghorydd lleol wedi bod mewn cysylltiad ag ef yn y ddwy flynedd diwethaf. Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng lleoliadau gwledig a threfol.

8.9 Fodd bynnag, mae gwahaniaethau amlwg yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol. Mae ychydig mwy na thraean o'r bobl o dan 35 oed wedi bod mewn cysylltiad â'u cynghorydd (35%) o gymharu â 48% o bawb a mwy na hanner y bobl dros 55 oed (53%). Mae hyn yn awgrymu bod y grwpiau oedran iau'n ymgysylltu llai â chynghorwyr lleol, a all awgrymu bod

ganddynt lai o alw am eu cymorth neu nad yw dulliau cyfathrebu wedi'u targedu'n benodol at y grŵp oedran hwn nac yn ei gyrraedd.

8.10 Y bobl yng ngrŵp cymdeithasol AB sydd wedi cael y cyswllt mwyaf â chynghorydd (53%) o gymharu â phobl yng ngrŵp C2 sydd wedi bod mewn cysylltiad leiaf (44%).

**Math o gyswllt â chynghorwyr**

8.11 Edrychodd cam ansoddol yr ymchwil yn fanylach ar ymwybyddiaeth o gynghorwyr a lefel cyswllt a chyfathrebu â chynghorwyr. Roedd 29 o'r 50 o bobl a holwyd yn gwybod pwy oedd eu cynghorydd lleol.

8.12 O'r 29 yna, roedd 14 wedi cyfathrebu mewn rhyw ffordd â'u cynghorydd lleol yn y ddwy flynedd diwethaf.

8.13 Mae rhai'n dweud eu bod wedi cael cyswllt uniongyrchol, gan siarad â'u cynghorydd lleol yn bersonol, dros y ffôn neu drwy e-bost am fater oedd yn effeithio arnynt hwy neu ar eraill yn yr ardal leol. Mae rhai'n dweud eu bod wedi mynd at eu cynghorwyr i gael cyngor a chymorth ond nad ydynt wedi cael eu bod yn gallu helpu bob amser oherwydd nad oedd modd gweithredu ar y mater neu na chawsant unrhyw ymateb.

8.14 Mae eraill wedi'u gweld mewn cyfarfodydd cyngor neu gyfarfodydd dan arweiniad y gymuned megis digwyddiadau ymgynghori neu gyfarfodydd Gwarchod y Gymdogaeth. Dim ond un ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi mynd i weld ei gynghorydd lleol mewn cymhorthfa.

8.15 Dywedodd ychydig o ymatebwyr mai dim ond yn gymdeithasol maent yn adnabod eu cynghorydd ac felly yn ei weld o gwmpas yr ardal leol ac fel arfer na fu angen iddynt gysylltu ag ef mewn ffordd arall.

**Rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr**

8.16 Edrychodd yr ymchwil ansoddol hefyd ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr.


8.17 Er bod 12 o'r 50 o ymatebwyr yn dweud nad ydynt yn siŵr beth yw rôl a chyfrifoldebau eu cynghorydd lleol, mae'r rhan fwyaf yn deall bod cynghorwyr yn cael eu hethol i gynrychioli pobl yn eu ward a beth yn fras yw cylch gwaith cynghorwyr. Ond y tu hwnt i hynny, ni wyddant yn dda iawn beth yw cyfrifoldebau penodol eu cynghorwyr lleol eu hunain, oni bai eu bod wedi ymwneud â hwy'n uniongyrchol.

*"Dwi wedi dysgu lot am rôl y cynghorydd o ddod i ymwneud efo'r ysgol"*
35-54 oed, trefol, benyw

*"Bu'n gweithio trwy'r nos yn goruchwylio ac yn ffonio pobl i ddelio â'r llifogydd. Mae'n helpu gyda phroblemau. Mae ganddo rifau pobl rydyn ni eu hangen, ac mae'n rhwydweithio'n dda"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

**Boddhad â gwaith cynghorwyr**

**Siart 13**




Sail: 999 o ymatebwyr

8.18 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr am lefel eu boddhad â'r gwaith mae cynghorwyr yn ei wneud, ni waeth beth fo lefel eu hymwybyddiaeth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr i lefel eu boddhad ar raddfa o un i ddeg lle'r oedd un yn dangos eu bod yn 'anfodlon iawn' ac roedd 10 yn dangos eu bod yn 'fodlon iawn'.

8.19 Yn gyffredinol, rhoddodd ychydig o dan draean (31%) sgôr o saith neu fwy, sef sgôr gymharol gadarnhaol. Roedd hyn yn uwch mewn siroedd gwledig lle rhoddodd bron dau bumed (38%) y sgôr hon. Ymatebwyr oedd wedi bod mewn cysylltiad â chynghorwyr oedd y mwyaf cadarnhaol, a rhoddodd 55% o'r grŵp hwn sgôr o saith neu fwy. Mae'r boddhad mwyaf ymysg yr ymatebwyr sydd dros 55 oed (39%) o gymharu â llai na chwarter (23%) o'r rheiny sydd o dan 35 oed.

8.20 Mae'r bobl sy'n gwybod pwy yw eu cynghorydd yn rhoi sgorau boddhad llawer uwch (44%) na'r bobl nad ydynt yn gwybod (17%).

8.21 Rhoddodd bron chwarter (23%) sgôr rhwng un a phedwar, gan awgrymu lefelau boddhad is, yn arbennig mewn ardaloedd trefol (25%) ac ymysg y bobl nad oeddent yn adnabod eu cynghorydd (26%).

8.22 Rhoddodd bron pumed (17%) yr ateb 'ddim yn gwybod' a rhoddodd 29% arall sgôr ganolig o 5 neu 6, gan awgrymu nad oes ganddynt farn bendant y naill ffordd na'r llall.

**Barn am berfformiad a chyfathrebu gan gynghorwyr**

8.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn yr ymchwil ansoddol pa mor dda mae eu cynghorydd yn cyflawni ei rôl. Gan mai ychydig o ymwybyddiaeth o rôl eu cynghorydd sydd gan y rhan fwyaf i ddechrau, nid yw'n syndod nad oes gan y rhan fwyaf unrhyw farn bendant ynghylch pa mor dda mae eu cynghorydd lleol yn cyflawni ei rôl.

8.24 Ymysg y bobl oedd yn gallu rhoi sylwadau, cymysg yw'r farn ynghylch pa mor dda mae cynghorwyr yn perfformio, gyda rhai'n dweud bod rhai cynghorwyr yn perfformio'n dda, ond nad yw eraill yn effeithiol yn eu swydd. Mae deg ymatebydd yn meddwl nad yw eu cynghorydd lleol yn cyflawni ei rôl yn dda, mae deuddeg yn meddwl ei fod yn ei chyflawni'n dda.

8.25 Mae profiad o weithgareddau a chyfathrebu cynghorwyr gyda'r gymuned yn amrywio'n fawr rhwng yr ymatebwyr. Mae'r bobl sy'n sôn yn ffafriol am eu cynghorydd lleol wedi'i weld yn aml yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn cyfathrebu'n rheolaidd ac maent yn barnu ei fod yn ymladd dros bethau sy'n bwysig i'r bobl yn y ward. Mae sylwadau gan ymatebwyr yn awgrymu bod y bobl sydd wedi dod i gysylltiad yn aml yn fwy cyfarwydd â'r hyn mae cynghorwyr yn ei wneud o gymharu â'r bobl sy'n dod i gysylltiad ychydig bach neu ddim o gwbl.

8.26 Mewn cyferbyniad, fel arfer mae ymatebwyr sy'n credu nad yw eu cynghorydd lleol yn cyflawni ei rôl yn dda wedi cael profiad anfoddhaol wrth ddod i gysylltiad â'u cynghorydd neu'n teimlo'n gyffredinol nad yw eu cynghorydd yn sefyll dros safbwyntiau a barn y bobl mae'n eu cynrychioli.

8.27 Mae ychydig o ymatebwyr yn dweud eu bod yn credu nad oes angen i gynghorwyr fod ag arbenigedd, cymwysterau neu hyfforddiant o angenrheidrwydd ac mai eu gallu i ennill etholiad yw'r unig beth hanfodol.

8.28 Mae rhai ymatebwyr yn cofio cael gohebiaeth gan gynghorydd ond hoffai llawer weld mwy o gyfathrebu gan eu cynghorydd lleol – nid dim ond o gwmpas adeg etholiad – yn bennaf oherwydd nad ydynt yn gwybod beth mae eu cynrychiolydd etholedig lleol yn ei wneud.

*"Dwi'n meddwl bod rhai'n gwneud yn dda iawn ond dwi ddim yn meddwl bod pob un yn gwneud"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Ydyn, maen nhw'n cyflawni rôl weithredol os yw rhywbeth arwyddocaol yn digwydd yn y gymuned"*
O dan 35 oed, gwledig, benyw


*"Ddim o gwbl – mae e'n anodd iawn mynd ato"*
35-54 oed, gwledig, gwryw

*"Fedra i ddim dweud ei fod, oherwydd dwi'n clywed ganddo'n achlysurol, fel arfer o gwmpas adeg etholiad"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Dwi ddim yn cael unrhyw ohebiaeth ganddyn nhw"*
35-54 oed, trefol, benyw

## Ymwybyddiaeth o dâl cynghorwyr

**Siart 14**




Sail: 999 o ymatebwyr

8.29 Mae bron tri chwarter o'r ymatebwyr (73%) yn credu bod cynghorwyr lleol yn cael eu talu am y gwaith maent yn ei wneud. Ychydig o amrywiaeth

sydd rhwng lleoliadau ond mae rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran. Dywed pumed (20%) o'r bobl o dan 35 oed nad ydynt yn gwybod a yw cynghorwyr yn cael eu talu ai peidio ac mae canran is na'r cyfartaledd, sef 67%, yn meddwl eu bod yn cael eu talu.

8.30 Ymatebwyr yng ngrwpiau cymdeithasol C2 a DE sy'n fwyaf tebygol o feddwl bod cynghorwyr yn cael eu talu (77%) ond mae'r bobl yng ngrŵp AB yn lleiaf tebygol o feddwl hynny, gyda 67% yn credu bod cynghorwyr yn cael eu talu a 20% yn credu nad ydynt yn cael eu talu.

8.31 Mae mwy o wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau manwl yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (32) yn credu bod cynghorwyr yn cael eu talu, ond roedd wyth yn meddwl eu bod yn cael treuliau'n unig ac nid yw tri yn meddwl eu bod yn cael eu talu o gwbl. Roedd yr ymatebwyr eraill yn ansicr a yw cynghorwyr yn cael eu talu ai peidio.

**Canfyddiadau o lefel tâl ac oriau gwaith cynghorwyr**

8.32 Mae mwy o wybodaeth a gasglwyd gan yr ymatebwyr yn Rhan 2 yn awgrymu, pan ddaw at gyflogau cynghorwyr, fod cryn dipyn o amrywiaeth yn y swm mae ymatebwyr yn credu y caiff cynghorwyr ei dalu.

- Mae un o bob tri o'r ymatebwyr sy'n credu bod cynghorwyr yn cael eu talu yn meddwl mai rhwng £10,000 a £14,000, gyda threuliau ar ben hynny, fyddai cyflog cynghorydd lleol.
- Mae eraill yn sôn am ffigurau rhwng £30,000 a £40,000.
- Mae rhai ymatebwyr yn credu bod strwythur cyflogau, yn amrywio o oddeutu £10,000 i gynghorydd lleol i £30,000 i aelod o gabinet.
- Roedd un person yn credu y byddai Prif Weithredwr yn cael ei dalu rhwng £120,000 a £140,000 a Dirprwy Brif Weithredwr oddeutu £80,000.

8.33 Mae rhai ymatebwyr yn credu bod cynghorwyr yn cael eu digolledu am fynd i gyfarfodydd ac yn cael llawer iawn o dreuliau a lwfansau i ychwanegu at eu hincwm.

8.34 Mae barn ymatebwyr ynghylch a yw eu cyflog yn rhesymol yn dibynnu i raddau helaeth ar y cyflog maent yn credu eu bod yn ei gael, pa mor weithredol yw eu cynghorydd yn eu barn hwy, a pha mor dda mae'n cynrychioli eu cymuned. Mae nifer o ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r tâl

fod yn gysylltiedig â maint yr 'ymdrech' mae cynghorwyr yn ei gwneud i wasanaethu eu cymuned.

*"Mae'n anodd dweud oherwydd mae i gyd yn dibynnu faint o amser maen nhw'n ei dreulio'n gwneud beth mae angen iddyn nhw ei wneud"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Dylen nhw gael eu talu gan ddibynnu ar faint o oriau maen nhw'n gweithio"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

8.35 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y cyfweliadau manwl (31) yn credu bod cynghorwyr yn gweithio rhan amser. Dim ond wyth person sy'n meddwl bod cynghorwyr yn gweithio amser llawn, ac mae'r gweddill naill ai'n ansicr neu'n credu ei bod yn dibynnu ar eu rôl mewn llywodraeth leol.

**Diddordeb mewn bod yn gynghorydd**

8.36 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn Rhan 2 (32) yn dweud na fyddent yn ystyried bod yn gynghorydd. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hyn ond gan fwyaf mae hyn oherwydd cyfyngiadau amser neu oherwydd bod pobl yn credu eu bod yn rhy hen. Yn ddigon dealladwy, mae ymrwymiadau eraill, megis teulu a gwaith, yn ei gwneud yn anymarferol i ymatebwyr ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae eraill yn teimlo bod eu hoedran yn anfantais yn hytrach nag yn gaffaeliad; maent yn teimlo eu bod 'wedi gwneud eu rhan' dros y gymuned mewn rhai achosion ond bod galwadau bod yn gynghorydd yn ormod o faich.

*"Ddim nawr, dwi wedi mynd yn rhy hen o lawer"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Dwi'n gweithio amser llawn, felly nes imi roi'r gorau i weithio does dim amser i fod yn gynghorydd, hyd yn oed pe bai'n gallu ffitio o gwmpas fy ngwaith, does dim amser gen i"*
35-54 oed, trefol gwryw

8.37 Diddorol yw nodi bod y canfyddiad o fod yn 'rhy hen' i fod yn gynghorydd yn groes i ymchwil arall gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod mwy na hanner y cynghorwyr sir etholedig ar draws Cymru (57%) dros 60 oed[5].

8.38 Mae hefyd ymatebwyr nad oes ganddynt ddim diddordeb mewn bod yn gynghorydd neu nad ydynt yn ddigon hyderus i wneud. Mae galwadau agwedd wleidyddol y swydd naill ai'n anneniadol neu'n codi ofn ar bobl.

[5] Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, 2012

*“Dwi ddim eisiau ymhél â’r peth, a bod yn onest”*
Dros 55 oed, trefol, gwryw
*“Na, ddim i mi, dwi’n rhy swil. Mae angen i gynghorwyr fod yn dda am gyfathrebu, curo ar ddrysau i ofyn am bleidleisiau ac ati. ’Does gen i mo’r hyder”*
35-54 oed, trefol, benyw

8.39 Fodd bynnag, mynegodd deg ymatebydd ddiddordeb mewn bod yn gynghorydd, yn enwedig os oedd y rôl yn rhan amser, neu pan fyddai ganddynt fwy o amser ar ôl i’w plant dyfu i fyny neu ar ôl ymddeol.

*“Byddwn i’n ystyried bod yn gynghorydd, byddwn i’n ystyried ei wneud yn rhan amser”*
O dan 35 oed, trefol, gwryw

*“Pe bai’n rhan amser byddai o fwy o ddiddordeb”*
O dan 35 oed, trefol, benyw

**Rhwystrau i fod yn gynghorydd**

8.40 O ran rhwystrau canfyddedig sy’n atal pobl rhag bod yn gynghorydd, mae ymatebwyr yn nodi nifer o ffactorau gan gynnwys cyfyngiadau amser, diffyg ymwneud â phobl ifanc, profiad bywyd, yr ymwneud ag ymgyrchu gwleidyddol y mae ei angen a’r diffyg gwerthfawrogiad sy’n cyd-fynd â’r swydd.

8.41 Yn aml sonnir am gyfyngiadau amser fel problem a all achosi i bobl beidio â sefyll fel cynghorydd. O ganlyniad, mae ymatebwyr yn credu mai hwn yw un o’r prif resymau pam mae’r rhan fwyaf o gynghorwyr yn bobl sy’n hŷn nag oedran ymddeol.

8.42 Mae cred ymysg rhai bod oed yn dod â’r profiad mae ei angen i gynrychioli ward a’r problemau mae’r etholwyr yn eu hwynebu.

8.43 Fodd bynnag, dywedodd un o bob pump o’r ymatebwyr y byddent yn hoffi’r syniadau ffres a’r ‘gwaed newydd’ y byddai cynghorwyr iau yn eu cynnig. Gan gofio hyn, mae ymatebwyr yn meddwl bod angen gwneud mwy i annog pobl iau i ystyried sefyll fel cynghorydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwell dealltwriaeth i bobl o’r hyn mae cynghorwyr yn ei wneud a sut y gallai pobl ifanc ddechrau cymryd rhan, efallai trwy fwy o integreiddio â’r cwricwlwm ysgol.

*“Dyna’r broblem; mae’r holl gynghorwyr yn hen oherwydd nhw sydd â’r amser i’w wneud”*
Dros 55 oed, trefol, benyw

*“Wel, chi’n gwybod, mae eisiau i bobol ifanc gymryd drosodd*

*ond wedi dweud hynny mi ddylai pobol hefyd gael tamed bach o brofiad byw cyn mynd yn gynghorydd"*
Dros 55 oed, gwledig, benyw

*"Mae 'na ddiffyg dealltwriaeth gan bobl iau, yn enwedig ynghylch beth yw'r rôl a beth yw'r galwadau ar eu hamser"*
O dan 35 oed, trefol, benyw

*"Mae'n braf cael pobl sydd wedi gweld tipyn o fywyd, oherwydd mae ganddyn nhw brofiad, ond byddai'n braf cael rhai syniadau modern a chymysgedd iach o'r hen a'r newydd"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Mae'n ymddangos yn rhesymegol cael mwy o bobl ifanc. Byddai'n anogaeth i bobl ifanc ymgysylltu. Maen nhw'n ei weld o safbwynt gwahanol"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Hoffwn i weld mwy o anogaeth i bobl iau. Hoffwn i weld cynghorwyr lleol yn mynd i ysgolion a dweud wrth y plant: "Dyma beth rydyn ni'n ei wneud, allwch chi feddwl am ffordd ymlaen?""*
Dros 55 oed, trefol, benyw

8.44 Mae hefyd ymdeimlad ymysg y cyfranogwyr bod pobl naill ai'n dadrithio ag ochr wleidyddol rôl y cynghorydd neu nad oes ganddynt ddiddordeb yng ngweithgarwch llywodraeth leol. Mae hyn oherwydd bod mynd yn gynghorydd yn galw am etholiad, a gall hyn droi pobl nad oes ganddynt unrhyw dueddiad gwleidyddol oddi arno, er gwaethaf y ffaith y gallai'r agwedd 'ymwneud â'r gymuned' apelio atynt. Gallai dod dros y rhwystr o gael eu hethol fod yn faen tramgwydd mawr i lawer oherwydd nad ydynt o angenrheidrwydd eisiau cysylltu eu hunain â phlaid wleidyddol ac y gallai cael eu 'trechu' hefyd fod yn annifyr i'r unigolyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r rhesymau a roddwyd yn gynharach am ddiffyg diddordeb mewn bod yn gynghorydd.

*"Mae'n eithaf trist, dwi'n nabod rhai pobl ifanc ddawnus fyddai'n gwneud cynghorwyr da, ond dwi'n meddwl bod pobl wedi'u dadrithio gyda gwleidyddiaeth"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Dwi'n meddwl fod pobol wedi cael llond bol o wleidyddion. Dydi pobol ddim yn eu trystio"*
35-54 oed, trefol, benyw

8.45 Er bod pobl yn ddigon parod i gwyno am lywodraeth leol a materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, nid ydynt eisiau ymwneud â rôl a ystyrir yn aml yn un ddiddiolch.

*"Fe gewch chi bobl bob amser fydd yn cwyno, yn gweld bai, ond dydyn nhw ddim yn fodlon sefyll i fyny drosto"*
Dros 55 oed, gwledig, gwryw

*"Rydych chi angen digon o amser ac i'r holl bobl sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth mae'n dasg ddiddiolch, mae bob amser canran sy'n meddwl eich bod yn gwneud pethau'n anghywir, fydd bob amser yn dweud pethau negyddol"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

**A ddylai cynghorwyr adlewyrchu'r proffil demograffig lleol?**

8.46 Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig i gynghorwyr adlewyrchu proffil y gymuned leol, ond nid mater o gefndir yw hynny bob amser. Bernir bod cael cynghorydd sydd â gwreiddiau yn y gymuned, sy'n deall anghenion y ward ac sy'n fedrus yn ei rôl yn bwysicach na'i oedran na'i gefndir.

8.47 Mae rhai ymatebwyr yn dweud ei bod yn bwysig i gynghorwyr fod â safbwyntiau a phrofiadau bywyd gwahanol er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y bobl yn eu hardal.

*"Os yw'n gwneud ei waith yn dda dyw beth yw ei gefndir ac o le mae'n dod ddim yn golygu affliw o ddim, cyhyd â'i fod yn fedrus"*
Dros 55 oed, trefol, benyw

*"Dylai cynghorydd adlewyrchu'r ardal gan y byddai ganddo ryw syniad o'r problemau yn y gymuned"*
Dros 55 oed, trefol, gwryw

*"Mae'n well bod ganddyn nhw amrywiaeth fawr o brofiadau fel y gallan nhw ddod â phethau gwahanol i'r gymuned"*
35-54 oed, gwledig, benyw

# 9 Casgliadau

9.1 Yn gyffredinol, cymysg yw'r ymwybyddiaeth o gynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol, a dim ond un o bob pump o'r ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn ymwybodol iawn o'r newidiadau arfaethedig. Pobl dros 55 oed a phobl yng ngrwpiau cymdeithasol AB sy'n fwyaf ymwybodol. Mae'r rhan fwyaf wedi dysgu'r hyn maent yn ei wybod o gyfryngau lleol yn hytrach na thrwy gyfathrebu uniongyrchol gan y sector cyhoeddus. Mae ymatebwyr yn dweud y bydd angen ystyried amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu uniongyrchol ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r cyfryngau sydd orau gan bobl a'r gallu i gael gwybodaeth – ar lein ac oddi ar lein.

9.2 Mae cyfran fawr o'r cyhoedd heb ymwneud â gweithgareddau ymgynghori. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan, cyfyngiadau amser a difaterwch naill ai'n gyffredinol neu ynghylch y pwnc dan sylw. Mae ymatebwyr yn dweud y bydd angen i weithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol fynd i'r afael â'r materion hyn gan gynnwys sut mae llywodraeth leol yn cyfathrebu â'r cyhoedd a'r adeg mae hyn yn digwydd. Mae sylwadau gan ymatebwyr yn ei gwneud yn glir bod angen i'r cyhoedd gredu bod gan unrhyw gyfraniad i weithgarwch ymgynghori y 'pŵer i ddylanwadu' ar benderfyniadau. Ni all hyn ddigwydd ond os yw'r ymgysylltu'n digwydd yn ddigon cynnar yn y cylch datblygu polisi neu wasanaeth a chyn bod penderfyniadau eisoes wedi cael eu gwneud.

9.3 Mae'r ymchwil hon yn pwysleisio bod helpu'r cyhoedd i gysylltu â'r pwnc hefyd yn faes y mae angen rhoi sylw iddo. Mae ymgysylltu yn fwy tebygol lle mae gan y cyhoedd gysylltiad â'r pwnc, yn arbennig pan maent yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn effeithio arnynt.

9.4 Mae canfyddiadau'r ymchwil yn nodi bod gan y cyhoedd fwy o ddiddordeb mewn gwneud cyfraniad i faterion llywodraeth leol o gymharu â'r graddau cyfyngedig maent yn ymgysylltu ar hyn o bryd. Mae llawer iawn o anfodlonrwydd â lefel y cyfle i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd mewn llywodraeth leol, yn enwedig i'r grwpiau canol oed, ond llai felly i aelodau iau o'r cyhoedd.

9.5 Mae barn ymatebwyr yn nodi bod cael gafael ar wybodaeth am berfformiad a gweithgareddau'n rhwydd, a thryloywder yn gyffredinol, yn faterion allweddol i'w hystyried. Mae angen cyfathrebu uniongyrchol gan lywodraeth leol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a phreswylwyr. Hoffai'r cyhoedd weld mwy o gyswllt â chynghorwyr a chymryd mwy o ran trwy weithgareddau ymgynghori gan gynnwys arolygon, digwyddiadau ymgynghori, cyfarfodydd cyngor, digwyddiadau cydystyried, grwpiau ffocws a gweithdai, a fforymau neu grwpiau arbenigol.

9.6 Er bod rhywfaint o ddiddordeb ymysg yr ymatebwyr mewn ymwneud â gweithgareddau dan arweiniad y gymuned, y prif ffactorau sy'n achosi i bobl beidio ag ymgysylltu yw ymrwymiadau eraill megis gwaith, teulu a chyfrifoldebau eraill. Yn aml mae'r ymatebwyr hynny sydd eisoes yn ymwneud â gweithgareddau cymunedol yn cael eu hysgogi gan eu profiad personol o wasanaethau neu oherwydd bod ganddynt ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dinesig ac yn cael bod eu hymwneud yn rhoi boddhad personol iddynt pan welant ganlyniadau eu hymdrechion ar y cyd ag eraill. Wedi dweud hynny, byddai sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yn lleol yn haws eu gweld yn annog ymwneud cymunedol, gan fod diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol yn broblem i rai.

9.7 Mae'r ymchwil hon yn awgrymu, er bod yna ddiddordeb yn y gymuned yn cydweithio â llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau, mae teimladau cryf ymysg llawer o bobl ynghylch sicrhau y gwneir hyn mewn partneriaeth a bod y sector cyhoeddus yn cadw rhywfaint o gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau.

9.8 Mae'r ymchwil yn awgrymu, yn y tymor canolig i'r tymor hir, y bydd addysgu'r genhedlaeth iau yn ffordd bwysig o wella ymwybyddiaeth o weithgareddau llywodraeth leol a phwysigrwydd ymgysylltu. Byddai gwella ymwybyddiaeth o'r hyn mae llywodraeth leol yn ei olygu a meithrin ymdeimlad o 'gyfrifoldeb dinesig' i'r gymuned leol, naill yn yr ysgol neu'r tu allan iddi, yn helpu i fynd i'r afael â'r 'difaterwch' cyffredinol sydd i'w weld ar hyn o bryd ymysg rhai aelodau o'r cyhoedd.

9.9 Mae'r ymchwil yn dangos mai lefel gymharol isel o ymwybyddiaeth sydd gan y cyhoedd o'u cynghorwyr lleol a beth maent yn ei wneud ar wahân i ddealltwriaeth fras eu bod yno i gynrychioli'r ward. Mae gan y bobl sydd wedi cael rhywfaint o gyswllt syniad gwell o'r hyn mae eu cynghorydd yn ei

wneud. Mae’r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn effeithio ar y boddhad â pherfformiad cynghorwyr lleol. Mae barn gymysg gan y rheiny sydd wedi cael rhywfaint o gyswllt, er bod eraill yn gadarnhaol iawn am eu profiad ac yn gweld eu cynghorwyr yn gweithredu ar faterion cymunedol ac yn ymwneud â digwyddiadau cymunedol. Hoffai’r cyhoedd weld cynghorwyr sy’n gwasanaethu eu cymuned ar sail dealltwriaeth dda o anghenion y gymuned.

9.10 Mae’r ymchwil yn dangos bod y cyhoedd eisiau i gynghorwyr gynrychioli eu cymuned ar sail dealltwriaeth sy’n deillio naill ai o’u cefndir eu hunain neu oherwydd bod ganddynt wreiddiau yn y gymuned a’u bod yn deall anghenion lleol. Er bod llawer yn teimlo y dylai fod gan gynghorwyr ddigon o brofiad bywyd i ymdopi â’r rôl, hoffai rhai weld cynrychiolwyr iau.

9.11 Er bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn meddwl bod cynghorwyr yn cael eu talu, cyfyngedig yw’r ymwybyddiaeth o dâl cynghorwyr, ond mae’r rhan fwyaf yn sylweddoli bod hyn yn amrywio gan ddibynnu ar rôl y cynghorydd. Mae’r farn ynghylch a yw’r tâl yn ‘rhesymol’ yn amrywio gan ddibynnau ar rôl y cynghorydd ond mae yna gred gyffredinol ymysg y cyfranogwyr y dylai fod yn gysylltiedig â’r graddau y maent yn gwasanaethu’r gymuned.

9.12 Mae’r ymchwil yn awgrymu y bydd annog pobl i sefyll mewn etholiadau i fod yn gynghorydd yn heriol yn wyneb y galwadau a’r cyfrifoldebau mae aelodau o’r cyhoedd yn eu teimlo yn eu bywydau beunyddiol. Fodd bynnag, mae’r syniad o weithio’n rhan amser yn fwy deniadol i rai. O roi problemau amser ac ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldebau eraill o’r neilltu, un o’r rhwystrau mwyaf i’w wynebu yw’r dadrithiad cyffredinol ag ochr wleidyddol rôl y cynghorydd. Mae’r agwedd ymwneud â’r gymuned yn ddeniadol i rai ond mae’n bosibl y bydd yr angen i ymwneud â gwleidyddiaeth leol yn achosi iddynt beidio â sefyll.